Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

# Cynllun Gwella Blynyddol

Sut wnaethom yn 2022-2023 a beth rydym yn bwriadu ei wneud yn 2024-2025

**CODI YMWYBYDDIAETH**
**LLEIHAU RISG**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys

Rhagair ....3

Cyflwyniad ....4

Datganiad Llesiant ....5

Asesiad Lleol ....7

Amdanom ni a'n cymunedau ....9

Trosolwg o Ystadegau 2022-2023 ....14

Sut y gwnaethom berfformio yn 2022-2023 ....15

Awdurdodau Unedol ....22

Archwiliadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2022-2023 ....27

Ein Themâu Strategol - Cefnogi WFGA ....30

- Eich Cadw'n Ddiogel ....32
- Ymateb i'ch Argyfwng ....34
- Gweithio â Phartneriaid ....36
- Ymgysylltu a Chyfathrebu ....38
- Diogelu ein Hamgylchedd ....40
- Defnyddio Technoleg yn Dda ....42
- Gwerthfawrogi ein Pobl ....44
- Parhau i weithio'n effeithiol ....46

Sut y gwnaethom Ddatblygu Ein Cynllun ar gyfer 2024-2025 ....48

Sylwadau'r Ymgynghoriad - Themâu ac Ymatebion ....50

Yr hyn rydym yn bwriadu gwneud yn 2024-2025 ....52

Yr Iaith Gymraeg a Dweud Eich Dweud ....62



# Rhagair



**Huw Jakeway QFSM**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



**Y Cynghorydd Steven Bradwick**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Helo, a chroeso i'n Cynllun Gwella Blynyddol diweddaraf.

Diben y cynllun hwn yw dathlu a myfyrio ar bopeth rydym wedi'i gyflawni fel sefydliad yn 2022-2023, ond mae hefyd yn manylu ar ein cynlluniau a'n Themâu Strategol i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth o gadw De Cymru'n ddiogel drwy leihau risg yn 2024-2025 a thu hwnt.

Mae amcanion a blaenoriaethau'r Gwasanaeth wedi'u datblygu mewn ymgynghoriad â'n staff, y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a'n rhanddeiliaid cysylltiedig. Bydd yr adborth a gafwyd yn darparu ffocws i alluogi'r Gwasanaeth i barhau i leihau risg a chefnogi ein cymunedau pan fydd angen arnynt.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn heriol i ni fel Gwasanaeth gyda mwy o ddiddordeb mewn pynciau megis newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru i'r terfyn cyflymder ar arwyddion ar ffyrdd cyfyngedig o 30mya i 20mya, nifer o ddigwyddiadau gweithredol ac wrth gwrs ein Hadolygiad Diwylliant Annibynnol. Rhoddais ar waith yr adolygiad o'n diwylliant, prosesau disgyblu ac achosion hanesyddol lle mae ein gweithwyr wedi methu â chynnal ein safonau uchel yn dilyn darn newyddion ymchwiliol gan ITV News. Penodwyd Fenella Morris CB yn Gadeirydd yr adolygiad ym mis Chwefror ac ar ôl cyfnod yn canfod ffeithiau, erbyn hyn mae'n gweithio gyda'i thîm i lunio adroddiad erbyn diwedd 2023.

Eleni, ni oedd y gwasanaeth tân ac achub cyntaf yn y DU i gyflwyno llinell gyngor a gwefan newydd Crimestoppers y Gwasanaeth Tân ac Achub, sy'n caniatáu i unrhyw un o'n staff sy'n pryderu am ymddygiad neu arferion amhriodol godi eu pryderon gyda Crimestoppers yn uniongyrchol, yn gyfrinachol ac yn ddienw. Cawsom hefyd ein hachrediad Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae eich barn a'ch profiadau yn hanfodol er mwyn llunio ffordd newydd ymlaen i ni.

Ar ddiwedd y cynllun hwn, rydym yn gobeithio byddwch yn dweud wrthym beth yw eich barn am ein hamcanion, a hefyd yn cwblhau ein harolwg ymgynghori neu'n cysylltu â ni; mae eich meddyliau, eich safbwyntiau a'ch syniadau yn hanfodol i'n llwyddiant.

**Huw Jakeway QFSM | Prif Swyddog Tân**

# Cyflwyniad

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf o fewn y DU, gan gwmpasu 10 Awdurdod Unedol gyda phoblogaeth dros 1.5 miliwn. Mae data cyfrifiad diweddar yn dangos ein bod yn gwasanaethu rhai o'r cymunedau mwyaf poblog a'r rhai sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Yn ddaearyddol rydym yn gyfrifol am leoliadau gwledig, arfordirol a threfol sy'n ymestyn dros 2,800 cilometr sgwâr.

Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i ni eu darparu wedi'u hamlinellu mewn ystod o fframweithiau cyfreithiol gan gynnwys:

- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ('y Mesur')
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('DLl CD')
- Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, 2016

Fel 'Awdurdod Gwella Cymreig' dynodedig, mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod a chyhoeddi amcanion gwella ac ymgynghori ar y rhain, gan ddangos bod ein cynlluniau yn rhoi sylw i'r saith agwedd ar wella:

- Effeithiolrwydd strategol
- Ansawdd gwasanaethau
- Argaeledd gwasanaethau
- Tegwch
- Cynaliadwyedd
- Effeithlonrwydd
- Arloesedd

Mae DLl CD hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod a chyhoeddi amcanion llesiant a gynlluniwyd i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl Cymru yn y dyfodol. O dan yr 'egwyddor datblygu gynaliadwy', sy'n cynnwys saith nod, rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn. Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi datganiad ac adroddiad blynyddol ar ein cynnydd, gan gynnwys ein hymateb i unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Mae gennym ddyletswydd i gadw pobl, cymunedau, busnesau ag amgylchedd De Cymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac yn effeithlon, ar hyn o bryd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, rydym yn ystyried anghenion a barn ein cymunedau yn barhaus, drwy weithio ar draws adrannau, gyda phartneriaid a'n cymunedau ill dau. Mae'r Cynllun Gwella hwn yn edrych yn ôl ar 2022-2023 ac yn adolygu cyflawniad yn erbyn ein cynlluniau a'n dangosyddion perfformiad allweddol. Mae hefyd yn edrych ymlaen at 2024-2025, gan amlinellu ein hamcanion a'n gweithgareddau arfaethedig sy'n agored i ymgynghoriad cyhoeddus.


# Datganiad Llesiant

Mae egwyddor datblygu gynaliadwy y DLl CD yn nodi:

Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod gofynion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy.

Rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiadau o dan DLl CD.

Wrth i ni ddatblygu ein Themâu Strategol, sef y blaenoriaethau lefel uchel sy'n llywio ein cynllun, mae saith nod DLl CD yn cael eu hystyried i sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawni.




Mae DLl CD hefyd yn adnabod y pum ffordd ganlynol o weithio y mae rhaid i ni eu hystyried a gweithredu yn unol â hyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

- Cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion **hirdymor** – Mae cymryd golwg tymor hwy yn ein Cynllun Strategol 2020-2030 yn ein galluogi i ystyried sut y bydd tueddiadau a newidiadau yn y dyfodol yn effeithio ar y cyhoedd a'n gwasanaethau, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd yn ogystal â newidiadau demograffig
- Rhoi adnoddau i **atal** problemau – Mae ein gweithgarwch ataliol yn cynnwys gweithio gyda busnesau a pherchnogion adeiladau i wneud eiddo'n ddiogel a gweithio gydag unigolion a grwpiau i newid ymddygiad, gyda'r nod cyffredinol o atal yr angen am ymateb brys
- Defnyddio dull **integredig** drwy gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol – Ymgymerir â'n proses gynllunio ar y cyd gan gynnwys randdeiliaid amrywiol gan gynnwys ein staff, ein partneriaid a'r cyhoedd, i sicrhau bod effaith cynigion yn cael eu harchwilio'n llwyr
- **Cydweithio** ag eraill i helpu i gyflawni amcanion llesiant – Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar lefel strategol a lleol ill dau
- **Cynnwys** pobl eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal – Mae ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn sicrhau bod cyfleoedd i gyfrannu safbwyntiau a syniadau




Cydnabuwyd llwyddiant DLl CD yng Nghymru gan y Cenhedloedd Unedig gyda datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Cenhedloedd y Presennol Tuag at Genedlaethau'r Dyfodol ynghyd â galwad i roi cenedlaethau'r dyfodol wrth galon penderfyniadau.

## Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021

Ers mis Mawrth 2021, mae bu rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft, sy'n profi tlodi neu fynediad anghyfartal i wasanaethau fel trafnidiaeth. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldebau o ran canlyniadau gan gynnwys iechyd gwaeth, cyrhaeddiad addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol. Felly, rydym yn rhoi sylw dyledus i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau'r DLl CD.

Rydym yn cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wrth ddatblygu prosiectau, diwygio neu ysgrifennu polisïau, dylunio mentrau/ymgyrchoedd, ac ati, a chaiff yr asesiadau hyn eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau'n wirioneddol gynhwysol. Drwy fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i gael mynediad at ein gwasanaethau, rydym yn canolbwyntio ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

## Cynlluniau Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC)

Mae pob un o'n 47 o orsafoedd tân ac achub yn cynhyrchu CRhRC blynyddol gan gynnwys asesiad o ddemograffeg, i ddeall yn well y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a risgiau/blaenoriaethau lleol gan gynnwys risgiau adeiladu/adeiladau, dŵr, a ffyrdd. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn amlygu gweithgareddau a mentrau cymunedol sy'n cael eu cynllunio a'u darparu'n lleol ac yn cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Yn y Cynllun Gwella hwn, rydym yn darparu trosolwg o'r ardal rydym yn gwasanaethu, gan amlygu rhai o'r heriau penodol a wynebir a sut maent yn effeithio ar ein cymunedau. Mae hwn yn dangos yr agweddau sy'n cysylltu cynlluniau ein gorsafoedd â'n blaenoriaethau strategol, sy'n gysylltiedig â'n gwaith gydag awdurdodau unedol a chyrff cyd-drefnu, gan gynnwys BGC lleol.

## Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Mae'r BGC yn adrodd yn flynyddol ar eu cynnydd i ddangos sut mae cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLl CD) yn cael eu cyflawni. Gwnânt hyn drwy baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol sy'n amlygu'r newidiadau sydd angen eu gwneud o fewn pob rhanbarth daearyddol a pha gamau sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni hyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn aelodau effeithiol o'r BGC, rydym bob amser yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd. Rydym yn ceisio cydweithio a mabwysiadu dull integredig o ddarparu gwasanaeth a fydd yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac yn iach yn eu bywydau bob dydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGC yn dangos ein hymrwymiad i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ynghyd ag egwyddor datblygu gynaliadwy'r DLl CD, saith nod y DLl CD yn ogystal â chymhwyso'r pum ffordd o weithio.

Yn dilyn newidiadau diweddar yn strwythur rhai o'n BGC, rydym yn parhau i weithio gyda'r BGC yn ein hardal a'u cefnogi yn ogystal ag ymgysylltu â strwythurau newydd y BGC ar lefel strategol a lleol.

Cliciwch ar y logo perthnasol isod i ymweld â gwefan BGC.

# Asesiad Lleol

Rydym wedi adolygu'r asesiadau llesiant lleol gan ein BGC, gan edrych ar sut y gallwn gefnogi ein partneriaid BGC i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Rydym hefyd wedi cyfeirio at asesiad o'r effaith ar iechyd 'Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru' Sefydliad Iechyd y Byd (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023) sy'n archwilio effaith ehangach newid yn yr hinsawdd yng Nghymru a Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru 2023: asesiad o'r cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol (cyhoeddwyd Medi 2023).

## Cymdeithasol

Mae lles meddyliol yn ffactor pwysig i iechyd cyffredinol. Er y bu gwelliant ers 2016-2017, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adrodd bod Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru o ran lles meddwl a gyda nhwythau mai'r lefelau uchaf o amddifadedd yn ardal BGC Cwm Taf Morgannwg (CTM). Canfuwyd bod y rhai o ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o feddu ar sgoriau gwaeth yn erbyn y pedwar dangosydd llesiant meddwl a gynhwyswyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae Caerdydd yn dod yn drydydd ymhlith awdurdodau unedol Cymru o ran lles meddyliol oedolion ac mae wedi gwella ers 2016-2017 gan fwy na'r nifer cyfartalog ar gyfer Cymru.

Mae bod yn yr awyr agored yn dda ar gyfer iechyd meddwl cadarnhaol. Mae CTM yn pwysleisio bod gan yr ardal ystod eang o fannau gwyrdd agored gan gynnwys y cymoedd a'r arfordir sy'n rhoi cyfle i ddianc a phrofi llonyddwch. Mae gwneud defnydd da o'r meysydd hyn a hybu eu buddion ar gyfer iechyd meddwl yn gyfle i ddarparu cymorth ataliol a chynnar i wella iechyd meddwl. Fel gwasanaeth, rydym yn gweithio tuag at gael ardaloedd llesiant ym mhob lleoliad a chynyddu ein mannau gwyrdd ar orsafoedd i'w defnyddio gan ein staff a chymunedau lleol. Rydym yn cymryd rhan yn 'Diwrnod Amser i Siarad' ac yn rhoi pwys ar iechyd meddwl cadarnhaol ein staff drwy gynyddu nifer y swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl o fewn y gwasanaeth.

Mae pobl gydag iechyd meddwl gwael ddwywaith yn fwy tebygol o ysmygu. Rydym yn parhau i gynnig cyngor am roi'r gorau i ysmygu a diogelwch tân ychwanegol yn y cartref i ysmygwyr. Bu cynnydd yn y defnydd o e-sigaréts yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, sy'n cyflwyno risg tân achos batris lithiwm.

Mae pob un o'r pedwar asesiad BGC yn debyg i raddau o ran twf poblogaeth a dirywiad ffrwythlondeb, er mai Casnewydd sydd â'r twf poblogaeth uchaf ar hyn o bryd, sef 9.5% (yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru ar 1.4% a Lloegr ar 6.6%) a Chaerdydd yw'r mwyaf poblog. Mae cynnydd yn yr ystod oedran 65+ ar gyfer pob BGC, ac mae Caerdydd a Gwent ill dau yn rhagweld y bydd twf uwch na'r faint cyfartalog ar gyfer Cymru. Er bod manteision i boblogaeth sy'n heneiddio, megis mwy o wirfoddoli a gweithgarwch cymdeithasol, rhaid ystyried hefyd y cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd, a'r risg o ran diogelwch yn enwedig lle mae problemau symudedd neu ddementia ymhlith pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

Mae CTM, Caerdydd, a Bro Morgannwg i gyd yn nodi bydd dementia'n cynyddu'n aruthrol o fewn yr 20 mlynedd nesaf. Mae RhCT yn nodi mentrau yn y cymunedau ac mewn gwaith sy'n darparu cefnogaeth a gwybodaeth am ddementia i gynorthwyo'r sawl sy'n byw gyda'r clefyd yn ogystal â helpu'r teulu, ffrindiau a gofalwyr. Fel gwasanaeth, rydym yn cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia penodol i'n criwiau gorsaf ac mae ein Hymarferwyr Diogelwch Cartref yn cael hyfforddiant ychwanegol ar gyfer achosion cymhleth. Rydym hefyd yn cefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Dementia ac rydym wedi ffurfio partneriaethau gyda grwpiau dementia lleol.

Nodir gordewdra yn brif bryder iechyd cyhoeddus yng Nghymru wrth i'r niferoedd ar gyfer plant ac oedolion gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae tlodi a chostau byw wedi bod yn rhwystrau i ddeiet iach yng Nghymru ers cyn 2020 a chredir y bydd newid yn yr hinsawdd hefyd yn effeithio ar hyn wrth i dywydd eithafol amharu ar gynhyrchu bwyd ac effeithio ar ansawdd pridd gwaeth ar gynnyrch cnydau. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu adnoddau hyfforddi ac offer i ddarparu ymateb effeithiol i anafusion bariatrig, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr GIG, gan ein bod wedi gweld mwy o alw am ein cymorth.

## Economaidd

Mae adroddiad Llesiant Cymru diweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi incwm real gwan a thwf cynhyrchiant yn y DU yn gyffredinol ond mae hefyd yn nodi bod Cymru'n cadw i fyny â gweddill y DU, er bod chwyddiant uchel ac arafu economaidd parhaus yn debygol o effeithio ar ragolygon uniongyrchol. Er bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl 16-64 oed yn debyg i gyfradd y DU ond yn is, mae wedi bod yn gyfnewidiol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn uwch na'r DU yn gyffredinol ac mae wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Y dylanwad mwyaf ar gyflogaeth ac incwm yw sgiliau a chymwysterau. Mae wyth o'n hawdurdodau unedol yn y deg isaf yng Nghymru o ran cyfradd cymhwysterau. Mewn perthynas â'r maes incwm, yr awdurdodau unedol â'r gyfran uchaf o ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig oedd Casnewydd, Merthyr Tudful a Chaerdydd, oedd i gyd â tua 20%. Nid oedd gan Sir Fynwy unrhyw ardaloedd yn y 10% mwyaf difreintiedig (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae unigolion a theuluoedd mewn cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn byw bywydau iachach. Mae tai, iechyd a lles economaidd-gymdeithasol i gyd yn cael eu heffeithio gan ansawdd y tai y gall pobl gael mynediad iddynt, a bydd hyn yn cael effaith barhaus o safbwynt amgylcheddol.

## Amgylcheddol

Mae'r hinsawdd newidiol ac effaith ddinistriol llifogydd wedi bod yn amlwg, yn enwedig yn yr ardal CTM. Roedd pobl yn poeni am yr effaith ar eu safon byw o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd a llifogydd yn y dyfodol. Roedd llifogydd eisoes wedi effeithio ar gartrefi, busnesau, a'r amgylchedd, ond mae'r rhai o ardaloedd incwm is yn dioddef gan na allant fforddio symud, costau yswiriant cynyddol a gwaith atgyweirio ar ôl difrod.

Mae ardaloedd trefol yn fwy agored i effeithiau llifogydd, ond mae'n bosibl y gall defnyddio datrysiadau seiliedig ar natur a mannau gwyrdd helpu gyda hyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu y bydd cymunedau gwledig yn debygol o gael cyfran fawr o lifogydd a thanau gwyllt gan eu bod yn gorchuddio 82% o arwynebedd tir Cymru. Mae'r cyfraddau uchaf o danau gwyllt yn digwydd yng nghymoedd Cymru ond yn anaml y'i gwelir mewn llawer o ardaloedd gwledig Gwent. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chymunedau, gan addysgu am y peryglon a'r difrod y mae tanau gwyllt yn eu hachosi, yn ogystal â chysylltu â rheolwyr tir i leihau risg.

Uchelgais gan Lywodraeth Cymru yw cael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae ansawdd aer yn cael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd ac mae hyn yn cynyddu'n gyflym gyda llygredd aer yn achos cydnabyddedig o afiechyd a marwolaethau y gellir eu hosgoi. Mae trafnidiaeth tanwydd petrol a disel yn cyfrannu'n fawr at lygredd aer yn ein trefi a'n dinasoedd. Mae llawer o ddulliau trafnidiaeth presennol yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac iechyd, gan arwain at archwilio opsiynau amgen, megis teithio llesol a cherbydau trydan a hydrogen. Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau ein hunain i leihau ein hôl troed carbon, gan gynnwys ein defnydd o gerbydau trydan ac rydym wedi ymuno â sector cyhoeddus Caerdydd, Bro Morgannwg a Gwent ar Siarteri Teithio Iach i ddangos ein hymrwymiad i deithio mwy cynaliadwy.

## Diwylliannol

Mae etifeddiaeth ddiwydiannol a hanesyddol Cymru I'w gweld yn amlwg yn ein tir, ein hadeiladau hanesyddol, ein cestyll, ein hadfeilion, a'n mynwentydd. Mae Cadw yn disgrifio'r pyllau glo ar draws De Cymru a Chwm Rhondda fel 'chwaraewr blaenllaw yn Chwyldro Diwydiannol Prydain', gan gydnabod hefyd bod tirweddau Cymru wedi'u llunio gan weithgarwch dynol. Maent yn dymuno cadw agweddau hanesyddol a diwylliannol y rhain. Rydym yn cydnabod ein rôl o ran diogelu treftadaeth leol, datblygu adroddiadau Gwybodaeth Risg Safle Penodol (SSRI) a chynlluniau ymateb.

Mae targed Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 yn cael ei gefnogi gan ymrwymiad y Gwasanaeth i'r Gymraeg. Yng Ngwent ystyrir y bydd nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg yn gyfraniad cadarnhaol at lesiant ac ymdeimlad o berthyn. Mae BGC Caerdydd yn gweld y Gymraeg fel 'rhan gynhenid o bwy ydym ni fel cenedl, ein diwylliant a'n ffordd o fyw. Eu nod yw gwneud Caerdydd yn brifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru yn ogystal â dyblu'r nifer o siaradwyr Cymraeg.

# Amdanom ni a'n cymunedau

**"I wneud De Cymru'n fwy diogel wrth leihau risg"**

Mae ein datganiad cenhadaeth yn disgrifio pwrpas cyffredinol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: beth yr ydym yn ei wneud, i bwy, a sut a pham yr ydym yn ei wneud. Yn ogystal â dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau penodol, gan gynnwys ymateb i danau a chyflawni gwaith achub o ddŵr mewndirol ac atal a lleihau risg, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth er budd ein cymunedau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ddealltwriaeth ein cymunedau a'r heriau sy'n ein hwynebu.

**Amddiffyniad**

- Diogelwch Ffyrdd
- Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
- Diogelwch Tân i Fusnesau
- Patrolau Troseddau Tân

**Atal**

- Addysg
- Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch yn y Cartref
- Ymgysylltu Cymunedol
- Atal Llosgi Bwriadol

**Ymateb**

- Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd
- Tanau Domestig/Masnachol
- Diogelu'r Amgylchedd
- Chwilio ac Achub Trefol
- Digwyddiadau Trafnidiaeth
- Achub Anifeiliaid

Ers mis Ebrill 1996, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (ATADC) wedi bod yn gyfrifol am ddarparu'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ardal ddaearyddol De Cymru yn unol â fframweithiau cyfreithiol. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn cynnwys 24 o aelodau sy'n cynrychioli'r 10 Awdurdod Unedol rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r nifer o Gynrychiolwyr Cynghorwyr ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn dibynnu ar faint y cynrychiolwyr etholiadol a chyfranoledd gwleidyddol.

Mae'r Awdurdod a'i bwyllgorau yn cyfarfod yn rheolaidd gan gyhoeddi papurau a fideos o gyfarfodydd ar-lein - mae manylion ar gael ar ein gwefan.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gweithredu o 47 o orsafoedd tân ac achub sy'n cynnwys:

- **20** o orsafoedd Dyletswydd Gyflawn, ac mae gan naw ohonynt gyflenwad Ar Alwad hefyd
- **27** Gorsaf Ar Alwad

Rydym yn rhannu 11 gorsaf gyda'n cydweithwyr o wasanaethau brys eraill. Mae Canolfan Cyd-reoli Tân, a weithredir gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd ym Mhencadlys Heddlu De Cymru. Mae cydleoli yn ein helpu i gydweithio'n effeithiol a chefnogir hyn ymhellach gan ymgysylltu ar draws y Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), GIG, Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru.

Mae Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd yn darparu adnodd pwrpasol i gyflwyno hyfforddiant gweithredol i'r safon uchaf. Mae ein Huned Iechyd Galwedigaethol, a leolir ym Mhont-y-clun, yn cefnogi ein staff o ran eu hiechyd a'u lles.

O'n Pencadlys yn Llantrisant, mae pob un o'n timau, sy'n cynnwys Fflyd a Pheirianneg, Cyllid, Lleihau Risg a Gwasanaethau Pobl yn cefnogi ein criwiau ac yn darparu gwasanaethau ychwanegol i'n cymunedau.

Rydym yn cyflogi 1,696 o staff (ar yr 31ain o Fawrth 2023), ac mae gan rai ohonynt fwy nag un cytundeb. Maent yn cynnwys:

- **823** o Staff Gweithredol Llawn Amser
- **532** o Staff Gweithredol Ar Alwad
- **38** o Staff Rheoli Tân
- **303** o Staff Anweithredol, yn cynnwys personél Corfforaethol a Diogelwch Tân

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddyletswydd statudol a gofyniad cyfreithiol o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 i ddarparu darpariaeth Tân ac Achub brys i gymunedau De Cymru. Arweiniodd ein cynlluniau Rheoli Parhad Busnes cyfredol at greu'r Diffoddwyr Tân Cynorthwyol Wrth Gefn sy'n darparu'r hydwythdedd hwn. Rydym yn cyflogi 82 o Ddiffoddwyr Tân Cynorthwyol a 24 o bersonél Rheoli Tân Cynorthwyol yn y swyddogaeth hon.

Fel llawer o sefydliadau eraill yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cael heriau wrth recriwtio i rolau penodol. Mae trosiant staff wedi cynyddu ac, yn dilyn yr heriau o weithio o bell yn ystod y pandemig, bu'n rhaid i ni wedyn adfer cymuned ein gweithle ar ôl dychwelyd i'r swyddfa. Rydym bob amser yn canolbwyntio ar ddod o hyd i'r bobl iawn a chefnogi eu datblygiad, felly rydym yn parhau i archwilio ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys uwchraddio systemau, cyflwyno mwy o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd datblygu ar-lein megis ein Rhaglenni Llwybrau.

Mae recriwtio a chadw diffoddwyr tân Ar Alwad yn ffocws parhaus. Mae ein criwiau Ar Alwad yn hanfodol ac maent yn gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau. Er bod y rôl yn seiliedig ar ymrwymiadau eraill, rydym yn cydnabod bod amgylchiadau unigolion yn newid. Rydym felly'n ceisio arloesi mewn meysydd megis recriwtio, hyfforddiant a threfniadau cytundebau. Mae pob Gwasanaeth Tân ac Achub sydd ag elfen o griwio Ar Alwad yn gwynebu pryderon tebyg, felly rydym yn parhau i rannu profiadau ac atebion tebyg.

Ein nod yw adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, felly rydym yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth y Gwasanaeth yn barhaus.

## Demograffeg Staff 31 Mawrth 2023

| Gwryw | Benyw | Anabl | 26-60 oed |
|---|---|---|---|
| **82.3%** | **17.7%** | **5%** | **80%** |

## Ein cymunedau

Rydym yn gwasanaethu 10 awdurdod unedol, gan gwmpasu ardal o tua 2,800 cilomedr$^2$ (1,081 milltir sgwâr) gan gynnwys 3.7 cilomedr$^2$ (1.4 milltir sgwâr) o ddŵr mewndirol. Mae'r ardal yn gymysgedd o gymunedau trefol, gan gynnwys dinasoedd Caerdydd a Chasnewydd, yn ogystal â threfi mawr yn y cymoedd ac ardaloedd gwledig sylweddol.

Gyda phoblogaeth breswyl o dros 1.5 miliwn o bobl, rydym yn amddiffyn hanner poblogaeth Cymru. Mae ein cymunedau ymhlith y mwyaf amrywiol yng Nghymru – mae ffigurau diweddaraf y Cyfrifiad yn nodi bod 8.6% o'n poblogaeth yn 2021 yn perthyn i ethnigrwydd heblaw Gwyn o gymharu â 6.2% ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn amrywio ar draws yr ardal gyda'r poblogaethau mwyaf amrywiol yn byw yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Er y bu cynnydd cyffredinol o 2.9% yn ein poblogaeth rhwng 2011 a 2021, cofnododd dau awdurdod unedol ostyngiad (Blaenau Gwent o -4.2% a Chaerffili o -1.6%). Roedd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yng Nghasnewydd (+9.5%) ac wedyn Caerdydd (+4.7%), Pen-y-bont ar Ogwr (+4.5%) a Bro Morgannwg (+4.4%).

Mae pob ardal wedi gweld cynnydd yn y grŵp oedran 65+, gyda Sir Fynwy (+26.3%) a Bro Morgannwg (+25.7%) yn cofnodi'r newid mwyaf, yn ogystal â'r cyfrannau mwyaf o blith cyfanswm y boblogaeth yn 25.9% a 22% yn y drefn honno. Mae hyn yn cyferbynnu â 14.5% o boblogaeth Caerdydd ac 17% o boblogaeth Casnewydd sydd dros 65 oed. Mae'r newidiadau hyn yn arwyddocaol gan ein bod yn cydnabod risg uwch o anafiadau mewn tanau mewn cartrefi ymhlith trigolion hŷn. Mae'r newid hwn yn gyrru ein ffocws ar ddatblygu partneriaethau strategol i helpu targedu gweithgareddau atal. Yn y tymor hwy, mae rhagamcanion poblogaeth ar gyfer Cymru yn rhagweld y bydd twf poblogaeth yn arafu yn gyffredinol ond bydd poblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cynyddu risg, gan effeithio'n aml ar gyrchu gwasanaethau gan y rhai sydd â lleiaf o hydwythdedd i amgylchiadau newidiol. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosol Cymru (MALlC) yn mesur amddifadedd cymharol, gan osod y 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs – ardaloedd daearyddol yn cynnwys 1,500 o bobl) yng Nghymru gan eu nodi o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig. Mae'r gymhariaeth hon yn amlygu gwahaniaethau cymunedol gan fod bron i chwarter Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful ym mhlith y 10% mwyaf difreintiedig tra nad oes dim yn Sir Fynwy. Ym Mlaenau Gwent, mae 85% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym mhlith y 50% mwyaf difreintiedig.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau unedol a datblygwyr i sicrhau diogelwch adeiladau o'r cychwyn cyntaf mewn perthynas â'r camau cynllunio. Rydym hefyd yn parhau i fonitro risg safleoedd allweddol trwy law rhaglen o ymweliadau Gwybodaeth Risg Penodol i Safleoedd (SSRI) sy'n llywio ein cynlluniau ymateb trwy nodi risgiau. Mae ein gweithgareddau lleihau risg hefyd yn cydnabod bod yn agored i niwed a risg mewn grwpiau eraill, er enghraifft, gweithio gyda chymunedau teithwyr a darparwyr tai er budd ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## Trafnidiaeth a Theithio

Mae De-ddwyrain Cymru yn cynnwys dros 9,100 cilomedr (5,650 milltir) o ffyrdd, gan gynnwys yr A470, yr A465, yr A40, yr A449 a'r M4, gyda thros filiwn o deithwyr y flwyddyn yn symud drwy Faes Awyr Caerdydd. Gallai cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer system drafnidiaeth Metro Caerdydd, gan ddatblygu rhwydwaith integredig ar draws De-ddwyrain Cymru, drawsnewid teithio o fewn y rhanbarth drwy alluogi opsiynau teithio gwyrddach, darparu cysylltedd cynyddol a lleihau tagfeydd ar y ffyrdd. Amcan arall yw annog mentrau teithio llesol a chynhwysiant cymdeithasol. Fe wnaeth cyfyngiadau teithio yn ystod y pandemig leihau maint y traffig a gwelwyd gostyngiad mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Gallai datblygu seilwaith amgen hefyd ddarparu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus well.

## Diwydiant a Chyflogaeth

Nododd cyfrifiad 2021 yr awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr â'r cyfraddau mwyaf o breswylwyr oedd yn anweithredol o safbwynt economaidd yn sâl neu'n anabl yn hirdymor rhwng 16 a 64 oed, gyda phedwar o'r 10 uchaf yn ardal y Gwasanaeth (Blaenau Gwent 36.1 %, Merthyr Tudful 34%, Caerffili 32.2% a Rhondda Cynon Taf 30.6%). Er bod y diwydiant gweithgynhyrchu wedi dirywio, mae adfywio a buddsoddi wedi gweld cyfleoedd yn cael eu darparu gan dechnoleg newydd. Mae De-ddwyrain Cymru'n gyfrifol am tua 50% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru ac mae'n gartref i 50,000 o fusnesau lleol. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gweithio ar draws y rhanbarth i gefnogi buddsoddiad a datblygiad mewn sgiliau a seilwaith.

## Twristiaeth a hamdden

Dynodwyd Dyffryn Gwy'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mae tirwedd ddiwydiannol Blaenafon yn cael ei chydnabod am y dystiolaeth o'r Chwyldro Diwydiannol Prydeinig sydd yno. Mae arfordir Morgannwg o Aberddawan i Borthcawl yn Arfordir Treftadaeth dynodedig a cafodd Aber Afon Hafren ei ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig yn 2009.

Rydym erbyn hyn yn mwynhau ein hardal a'i dreftadaeth gyfoethog a esgorodd ar yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd a ddaeth yn sgil gweithgarwch dynol ill dau. Mae yma 690 o Henebion Cofrestredig gwarchodedig o bwysigrwydd archeolegol. Mae'r rhain yn cynnwys olion Rhufeinig, tomenni claddu, cloddiau a safleoedd diwydiannol. Bydd ymwybyddiaeth o'r lleoliadau hyn yn ein helpu i weithio gydag eraill, yn enwedig Cadw ac awdurdodau lleol, wrth i ni gynllunio ar gyfer digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a thanau gwyllt ac wrth ymateb iddynt. Er bod llawer o'r 6,000+ o adeiladau rhestredig yn ardal y Gwasanaeth yn strwythurau megis rheiliau, waliau a blychau ffôn, rydym yn parhau i nodi a rhoi cynlluniau ymateb ar waith ar gyfer adeiladau allweddol.

## Addysg

Mae tair prifysgol: Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn ogystal â phum coleg addysg bellach â safleoedd lluosol. Rydym yn darparu cyngor am gadw'n ddiogel mewn llety ar rent a neuaddau myfyrwyr i'n poblogaeth myfyrwyr, gan fod llawer ohonynt yn byw oddi cartref am y tro cyntaf,

Ar gyfer y 597 o ysgolion a gynhelir ar draws 614 o safleoedd, mae gennym raglen o ymweliadau ysgol i godi ymwybyddiaeth o risgiau amgylcheddol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig â diogelwch tân, dŵr a ffyrdd. Darperir y sesiynau hyn gan griwiau lleol ac arbenigwyr lleihau risg penodedig. Cynhelir Asesiadau Perygl Tanau Bwriadol mewn Ysgolion hefyd achos y risg sy'n gysylltiedig â safleoedd ysgol. Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu meithrin partneriaethau a chydweithrediad lleol.

## Materion sy'n dod i'r amlwg

Mae effaith **newid yn yr hinsawdd** wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd mewn tanau gwyllt yn ystod cyfnodau hir o dywydd poeth a sych. Rydym fel arfer yn gweld cynnydd mewn tanau gwyllt yn gynnar yn y Gwanwyn ond erbyn hyn rydym yn gweld ail frig yn ystod yr Haf gan arwain at fwy o danau'n cael eu mynychu a galw cynyddol ar ein criwiau ill dau. Mae ein harbenigedd yn cael ei gydnabod ledled y byd, gyda phersonél yn cael eu defnyddio i gefnogi cydweithwyr yn Ewrop ac ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol mewn cynadleddau a digwyddiadau. Rydym yn cefnogi datblygu hyfforddiant tân gwyllt i Gymru gyfan, gan gydweithio â gwasanaethau tân ac achub a phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gan ddigwyddiadau tywydd eithafol botensial i esgor ar fwy o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â dŵr, gyda rhagolygon newid hinsawdd yn rhagweld cynnydd mewn glaw trwm yn yr haf yn arwain at lifogydd dŵr wyneb, yn ogystal â stormydd gaeafol amlach. O ran ein cymunedau, bydd newid hinsawdd yn cael effaith anghyfartal ar iechyd a lles gan fod y sawl ar incwm is yn ogystal â'r rhai sy'n agored i niwed, plant a'r boblogaeth hŷn yn debygol o wynebu mwy o galedi ac effeithir ar hydwythdedd cymunedau.

Mae'r defnydd cynyddol o **fatris lithiwm-ion** mewn cynhyrchion gan gynnwys teganau ac offer pŵer y gellir eu dal â llaw, e-sgwteri a cherbydau trydan yn cael eu nodi fel risg sy'n dod i'r amlwg. Wrth ei thrin yn ofalus, mae hon yn ffynhonnell ynni ddiogel, ond pe byddai batris yn cael eu difrodi neu'n gorboethi wrth eu defnyddio neu wrth wefru, maent yn achosi risg tân. Rydym yn cysylltu â gwasanaethau tân ac achub eraill i ddeall y risg hon yn well a sut i ymateb iddi. Mae hyn yn cael ei chydlynu gan weithgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r Gwasanaeth. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer defnyddio, cadw a gwaredu'n ddiogel.

Gwelir **cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus** yn sgil twf arafach yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio ill dau. Disgwyliem hefyd i'r galw am ymyriadau lleihau risg godi yn seiliedig ar ein gwerthusiad o risg cymunedol. Disgwylir i aelwydydd leihau gyda chynnydd mewn aelwydydd un person, a nodir hyn fel risg i'r henoed a phobl â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar symudedd.

Gyda'r boblogaeth oedran gweithio yn tyfu ar raddfa arafach, gallwn wynebu heriau cynyddol o ran cynllunio ein gweithlu. Gallai newidiadau diweddar yn y farchnad gyflogaeth megis cyfraddau diweithdra isel a lefelau uchel o swyddi gwag ddod i'r amlwg fel patrymau tymor hwy a'r her i ni, megis cyflogwyr eraill, fydd cael ei gydnabod fel cyflogwr o ddewis.

Mae **defnyddio data'n well** yn gynhenid i fonitro a gwerthuso anghenion ein cymunedau a'n perfformiad ein hunain. Nodwyd hyn mewn archwiliadau diweddar. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'n partneriaid gan gynnwys mecanweithiau cadarn ar gyfer rhannu data yr ydym yn eu datblygu i ychwanegu gwerth i'n data ein hunain a chyfrannu at waith pobl eraill ill dau.

Mae **newidiadau deddfwriaethol** yn parhau i gael eu cyflwyno yng Nghymru ac rydym yn gweithredu ar y rhain i sicrhau bod ymwybyddiaeth ehangach o'u goblygiadau a'u gofynion gogyfer cydymffurfedd ymysg rhanddeiliaid a phersonau cyfrifol.

# Trosolwg o Ystadegau 2022-2023

Derbyniwyd **34,682** o alwadau gan Gyd-reoli Tân ar gyfer ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan gynnwys:

Cyfeiriwyd **1,052** galwad at asiantaethau eraill.

**2,500** Doedd dim angen ymateb brys ar o alwadau a deliwyd â hwy gan Cyd-reoli Tân.

Deliwyd â **10,413** o alwadau ailadroddus oedd yn ymwneud â digwyddiadau oedd yn digwydd eisoes.

Mynychwyd **18,705** o ddigwyddiadau.

**6,031** o Danau gan gynnwys:

- **623** o danau damweiniol mewn anheddau
- **1,228** o danau glaswellt/danau gwyllt
- **2,706** o danau gwastraff

Roedd **71.0%** o'r tanau a fynychwyd yn fwriadol.

**8,746** o Alwadau Ffug mewn ymateb i:

- **5,419** o larymau tân awtomatig
- **3,023** o alwadau â bwriad da
- **304** o alwadau ffug maleisus

**3,928** o Alwadau Gwasanaeth Arbennig gan gynnwys:

- **848** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- **47** o achubiadau o ddŵr
- **3,033** o ddigwyddiadau brys eraill*

Roedd gweithgarwch lleihau risg yn cynnwys:

- **987** o ymweliadau ag ysgolion
- **12,309** o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref
- **655** o archwiliadau diogelwch tân

* Digwyddiadau eraill nad ydynt yn danau lle mae angen i beiriant neu swyddog fynychu.

# Sut y gwnaethom berfformio yn 2022-2023

Mae adolygu ein perfformiad yn hanfodol er mwyn i ni fonitro ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Rydym yn gosod targedau blynyddol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Strategol Llywodraeth Cymru ac yn cymharu ein perfformiad yn erbyn Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, gan rannu data'n rheolaidd i lywio'r gwaith monitro hwn a darparu data meincnodi er mwyn cymharu.


Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am sut rydym wedi perfformio yn erbyn ein targedau strategol a mesurau perfformiad allweddol eraill.

## Galwadau a Dderbyniwyd

Yn 2022-2023, derbyniodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 34,682 o alwadau, sy'n gynnydd o 6.9% ar y flwyddyn flaenorol pan gymerwyd 32,456 o alwadau. O'r holl alwadau, roedd 10,413 (30% o'r cyfanswm) yn ail alwadau am ddigwyddiadau a nodwyd eisoes, a chafwyd 1,052 ychwanegol a gyfeiriwyd at asiantaethau eraill.

Mae ein polisi Her Galwadau yn ein helpu i reoli galwadau a all arwain at ddanfon diangen i ddigwyddiadau Galwadau Ffug. Trwy ofyn cwestiynau allweddol a chanfod lleoliad y galwr, mae Cyd-reolwyr Tân yn gallu nodi galwadau ffug neu alwadau maleisus a dilysu galwadau a wneir gyda bwriad da, asesu risg ac, yn y flwyddyn ddiwethaf, osgoi 4,486 achosion o ddanfon diangen.

## Pob Digwyddiad a fynychwyd




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 17,052 |
| Perfformiad gwirioneddol | 18,705 |
| Amrywiant | +9.69% |
| Graddfa i bob 10,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 114.2 |
| Cymru | 109.6 |
| Lloegr | 102.1 |


Fe wnaethom fynychu 1,203 yn fwy o ddigwyddiadau yn 2022-2023 na'r flwyddyn flaenorol, sy'n gynnydd o 7%. Roedd y cynnydd hwn yn cynnwys Tanau (+466, cynnydd o 8.1%), Galwadau Ffug (+379, 4.8%) a Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill (+369, 15.6%) a dim ond Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd a gofnododd gostyngiad ymylol (-11, - 1.1%). Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi adolygiad o bob math o'n dangosyddion strategol.

Er mwyn adolygu risg a chydlynu gweithgarwch gan gynnwys hyfforddiant, ymateb gweithredol a lleihau risg, mae gweithgorau'n datblygu arbenigedd arbenigol sy'n cael ei rhaeadru ar draws y Gwasanaeth a chyda phartneriaid lle bo'n briodol.

Am wybodaeth gan wasanaethau eraill:

- Y Swyddfa Gartref - Ystadegau digwyddiadau tân ac achub (Lloegr)
- Gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Ystadegau Cymru

## Tanau a fynychwyd




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 5,601 |
| Perfformiad gwirioneddol | 6,031 |
| Amrywiant | +7.70% |
| Cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 39.6 |
| Cymru | 35.6 |
| Lloegr | 31.6 |

Cynyddodd nifer y tanau a fynychwyd o 8% i 5,601 yn 2022-2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd o 5,875 o danau a fynychwyd yn flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf. Yn y tymor hwy, mae'n cynrychioli cynnydd o 4% o gymharu â phum mlynedd yn ôl 2017-2018 a chynnydd o 3% o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl 2012-2013. Bob blwyddyn mae tua 70% o'r holl danau a fynychwyd yn cael eu cynnau'n fwriadol.

Mae cyfradd y digwyddiadau ychydig yn uwch yn GTA De Cymru o'i chymharu â Chymru a Lloegr – mae hyn wedi bod yn gyson dros y cyfnod(au) adrodd a chymharu. Yn ychwanegu at hyn mae'r gyfran uchel o danau gwyllt yr ydym yn ymateb iddynt, sef 22% o'r holl danau yr ymatebwyd iddynt o gymharu ag 17% yn Lloegr.

Gwelir yn gyson mai **tanau sbwriel** yw'r math mwyaf cyffredin o dân a fynychwyd, gan gynrychioli tua 43% o'r holl danau. Roeddem wedi gweld gostyngiad yn 2019-2020 (cyn Covid) ond mae'r niferoedd wedi codi ers hynny, gyda chynnydd o 9% yn 2022-2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Er bod patrwm tymhorol, gyda niferoedd yn cynyddu yn y Gwanwyn a'r Hydref (tuag adeg noson tân gwyllt), gwelir y maint craidd misol gwaelodol. Canfuwyd cydberthynas rhwng tanau sbwriel a thanau gwyllt wrth i danau sbwriel gynyddu yn ystod cyfnodau o fwy o danau gwyllt, gan achosi amrywiadau misol ychwanegol. Bob blwyddyn, mae tua 90% o danau sbwriel yn cael eu cynnau'n fwriadol. Rydym wedi sefydlu Gweithgor Tanau Sbwriel i gydlynu ymgyrchoedd a gweithio gyda phartneriaid er mwyn i ni ddeall ac ymateb yn well i'r risg a'r niwsans cymunedol y mae'r digwyddiadau hyn yn achosi.


Mae mynychu **tanau gwyllt** yn cynyddu yn y Gwanwyn, yn enwedig yn ystod mis Mawrth/Ebrill. Yn 2022-2023 fe wnaethom fynychu mwy o ddigwyddiadau yn ystod Gorffennaf ac Awst, oedd yn cyd-daro â chyfnod estynedig o dywydd poethach a sychach. Arweiniodd hyn at gynnydd blynyddol o 13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn dilyn effaith newid hinsawdd, disgwyliwn bydd y patrwm hwn o weld ail uchafbwynt yn digwydd yn ddiweddarach yn fwy aml. Mae'r digwyddiadau hyn yn effeithio'n arbennig ar ein cymunedau yn y cymoedd, a dyna'r rheswm i ni gynnal gwaith parhaus gyda phartneriaid yn yr ardaloedd hynny. Bob blwyddyn, mae tua 90% o danau gwyllt yn cael eu cynnau'n fwriadol.

Er bod **tanau mewn anheddau** wedi bod yn lleihau'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf, yn 2022-2023 gwelwyd cynnydd o 5% ar y flwyddyn flaenorol. Bob blwyddyn, mae tua 10% o danau mewn anheddau yn cael eu cynnau'n fwriadol.

Mae **Tanau Damweiniol mewn Anheddau** (TDA) yn ffocws i'n gweithgareddau ataliol. Yn 2022-2023 mynychom 9 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, sy'n gynnydd o 1.5% (o 614 i 623). Mae'r ffactorau risg a nodwyd yn cynnwys aelwydydd dan bwysau ariannol, pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, yn enwedig y rheini sy'n oedrannus neu â phroblemau symudedd, ac mae eiddo rhentu cymdeithasol wedi'u gorgynrychioli o fewn ein hystadegau. Mae hyn yn alinio â dadansoddiadau cenedlaethol ac yn llywio ein blaenoriaethu o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a'n gwaith gyda darparwyr tai cymdeithasol. Tanau sy'n gysylltiedig â choginio yw achos mwyaf cyffredin TDA yn gyson (tua 60% bob blwyddyn). Er bod tanau sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn gyfrifol am lai na 10% o TDA, maent wedi bod, ar gyfartaledd, yn gyfrifol am 47% o farwolaethau o ganlyniad i TDA bob blwyddyn.

Mae nifer **y tanau mewn Cerbydau ar y Ffyrdd** wedi bod yn gostwng ers 2016-2017, gyda gostyngiad o 3% yn 2022-2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i fonitro'r digwyddiadau hyn gan y gallant fod yn arwydd o faterion troseddol neu gymdeithasol o fewn cymunedau.

## Galwadau Ffug a Fynychwyd




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 8,114 |
| Perfformiad gwirioneddol | 8,746 |
| Amrywiant | +7.80% |
| Graddfa i bob 10,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 57.4 |
| Cymru | 53.4 |
| Lloegr | 44.8 |

Mae galwad ffug yn cael ei gofnodi pan fydd lleoliad yn cael ei fynychu ar gyfer tân neu ddigwyddiad nad yw'n dân lle gwelir, ar ôl cyrraedd, nad oes digwyddiad mewn gwirionedd. Gall galwadau ffug ddigwydd o achos cyfarpar, bwriad da neu mae modd iddynt fod yn faleisus a gallent fod yn gysylltiedig â mathau o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â Thân neu Wasanaeth Arbennig.

Mynychodd y Gwasanaeth gyfartaledd o 8,228 o alwadau diangen dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2022-2023, mynychwyd 8,746 o ddigwyddiadau - cynnydd o 5% ar y flwyddyn flaenorol. Cynrychiolodd hyn 47% o holl ddigwyddiadau'r Gwasanaeth. Yn y tymor hwy, fe wnaethom fynychu 14% yn fwy o alwadau ffug o'u cymharu â phum a deng mlynedd yn ôl.

Mae **Digwyddiadau Galwadau Tan Ffug** wedi cynyddu'n flynyddol dros y pum mlynedd diwethaf, gan gael eu hysgogi gan duedd gynyddol mewn Galwadau Ffug yn gysylltiedig â chyfarpar (Galwadau Ffug Awtomatig neu GFfA). Roeddent yn cyfrif am 65% o'r holl ddigwyddiadau galwadau tân ffug yn 2022-2023 mewn 5,419 o ddigwyddiadau. Mae galwadau ffug o fwriad da, a wnaed o fwriad da pan fydd tân, wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf, i 32% o alwadau tân ffug y llynedd. Fel arfer byddwn yn cofnodi mwy o alwadau ffug gyda bwriad da yn ystod cyfnodau brig tanau gwyllt. Mae galwadau ffug maleisus yn gyson yn cynrychioli 3% o'r holl alwadau ffug a fynychwyd.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn GFfC mewn eiddo domestig, gan gynyddu 37% dros bum mlynedd (o 1,266 yn 2017-2018 i 1,733 yn 2022-2023). Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd GFfC mewn eiddo Preswyl Arall (sy'n cynnwys cartrefi preswyl) 1.7% (o 710 i 722) ond mae'r cynnydd ers 2021-2022 wedi bod yn 54% o 467. Mewn lleoliadau dibreswyl, ysbytai a lleoliadau gofal meddygol ac yna safleoedd addysgol yw'r prif safleoedd a fynychir ar gyfer GFfC.


Mae ysgogiadau GFfC yn cael eu hachosi fwyaf aml gan namau yn y system neu gan goginio. Gan amlaf galwadau ffug i dai neu adroddiadau am danau glaswellt neu sbwriel yw galwadau ffug bwriad da.

**Adnoddau** – Yn 2017-2018, cyflwynasom bolisi i gyfyngu ar nifer y peiriannau a ddanfonwyd i fathau penodol o eiddo yn ystod y dydd o ganlyniad i GFfC. Yn y flwyddyn honno, nifer cyfartalog y peiriannau a fynychodd digwyddiad ar gyfer GTFf 1.38 o bympiau fesul digwyddiad a chynyddodd hyn i 1.50 o bympiau fesul digwyddiad yn 2022-2023.

**Meincnodi** – Mae nifer yr achosion o Larwm Ffug a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth yn uwch na'r rhai ar gyfer Cymru gyfan a Lloegr ill dau. Roedd y cynnydd cyffredinol a gofnodwyd yr un fath â Chymru (+5%) ond yn is na'r cynnydd yn Lloegr (+6%). Roedd rhai gwasanaethau wedi cyflwyno polisïau i leihau neu atal mynychu GFfC penodol, sydd fel arfer yn ymwneud ag eiddo masnachol yn ystod oriau gwaith.

Cynyddodd **digwyddiadau Galwadau Ffug eraill** o 30% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o 247 yn 2021-2022 i 320 gyda mwy o alwadau i anheddau. Sylwer bod hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn Galwadau Gwasanaeth Arbennig.

## Gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd a fynychwyd




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 870 |
| Perfformiad gwirioneddol | 848 |
| Amrywiant | -2.59% |
| Graddfa i bob 10,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 5.6 |
| Cymru | 6.0 |
| Lloegr | 5.5 |

Bu gostyngiad yng nghyfanswm y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf) a fynychwyd gan y Gwasanaeth yn 2022-2023 i 848 o 859 yn y flwyddyn flaenorol, sydd 2.59% yn is na'n targed perfformiad o 870. Er bod cyfanswm y digwyddiadau a fynychwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cynyddu o'r lefel isel a gofnodwyd yn 2020-2021 yn ystod cyfyngiadau teithio yn gysylltiedig â'r pandemig, mae'r duedd ar i lawr yn y tymor hwy yn parhau.

Mae cyfran y digwyddiadau yn ymwneud â rhyngweithio â dioddefwr wedi cynyddu o 34.4% (392 allan o 1,138) yn 2017-2018 i 48.6% (412 allan o 848) yn 2022-2023. Roedd cyfran y digwyddiadau lle'r oedd angen rhyddhau neu ryddhau pobl yn debyg, sef 18%.


Nid ydym yn mynychu pob GTFf ac rydym yn defnyddio'r set ddata genedlaethol STATS19 a gesglir gan heddluoedd bob tro yr adroddir am wrthdrawiad anaf iddynt. Mae hyn yn darparu dadansoddiad manwl o gerbydau, dioddefwyr ac amgylchiadau ac yn caniatáu i ni ddeall risg ffyrdd yn well. Yn y pum mlynedd galendr rhwng 2017 a 2021, roedd nifer yr anafusion ar ei uchaf yn y grŵp oedran 20-29 ac roedd cyfran uwch o ddynion na benywod. Yn gyffredinol, roedd niferoedd uwch o anafusion yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, er bod hyn yn amrywio fesul awdurdod unedol. Roedd 14% o'r anafusion yn byw y tu allan i Gymru, tra bod 14.2% o'r holl anafusion yn gerddwyr ac roedd cyfran y beicwyr modur a beicwyr yn debyg ar 9.0% ac 8.8% yn y drefn honno.

Ar gyfer y Gwasanaeth, gwelwn fod y nifer uchaf o ddigwyddiadau a gofnodir yn flynyddol yn Rhondda Cynon Taf (18.9% ar gyfartaledd dros bum mlynedd) ac wedyn Caerdydd (18.4%)

**Meincnodi** – Mae nifer y GTFf a fynychwyd gennym fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan, ond yn uwch na Lloegr. Nid oedd y gostyngiad mewn GTFf a fynychwyd gan GTADC yn 2022-2023 (gostyngiad o 1.3%) yn dilyn y tuedd cynyddol a welwyd yng Nghymru gyfan na Lloegr gyfan.

**Newid mewn Terfynau Cyflymder** - Ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda Llywodraeth Cymru yn cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ar ffyrdd mewn ardaloedd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr ledled Cymru, byddwn yn parhau â'n gwaith cydweithredol gyda phartneriaid i gyflwyno negeseuon allweddol Diogelwch Ffyrdd ac addysg. Disgwylir bydd hyn yn lleihau nifer yr anafusion yn gyffredinol lle mae cyfraddau ar ffyrdd 30mya wedi bod ar eu huchaf. Fodd bynnag, gallai'r effaith uniongyrchol ar ddigwyddiadau a fynychir gennym ni fod yn gyfyngedig gan ein bod yn mynychu cyfran uwch o'r damweiniau mwyaf difrifol ar ffyrdd mewn ardaloedd dibreswyl.

## Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill (GGA) a fynychwyd




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 2,467 |
| Perfformiad gwirioneddol | 3,080 |
| Amrywiant | +24.8% |
| Graddfa i bob 10,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 20.2 |
| Cymru | 25.5 |
| Lloegr | 28.1 |

Mae Galwadau Gwasanaeth Arbennig (GGA) yn ddigwyddiadau nad ydynt yn danau sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, argyfyngau lleol megis gwrthdrawiadau traffig ffyrdd (a adroddir ar wahân), digwyddiadau meddygol a digwyddiadau achub pobl, trychinebau amgylcheddol mawr megis llifogydd neu ddigwyddiadau deunydd peryglus, digwyddiadau domestig megis pobl wedi'u cloi i mewn/allan a hunanladdiad/ceisio cyflawni hunanladdiad a threfniadau blaenorol i fynychu neu gynorthwyo asiantaethau eraill.

Fe wnaethom gofnodi cynnydd o 14% mewn galwadau gwasanaethau arbennig eraill (ac eithrio gwrthdrawiadau ar y ffyrdd) yn 2022-2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 2,711 i 3,080. Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cymorth i asiantaethau eraill (cynnydd o 38% i 666), digwyddiadau llifogydd (cynnydd o 49% i 255) ac effaith mynediad/allanfa (cynnydd o 20.5% i 412). Yn y tymor hwy, bu cynnydd cyffredinol o 17% mewn digwyddiadau GGA Eraill o gymharu â phum mlynedd yn ôl a chynnydd o 47% o gymharu â deng mlynedd yn ôl.

**Llifogydd** - Mae digwyddiadau wedi codi 49% (i 255) yn 2022-2023 ond maent yn parhau i fod yn is na'r cyfnod yn y ddwy flynedd flaenorol pan welsom gyfnodau o stormydd dwys. Roedd mannau problemus o ran llifogydd amgylcheddol yn cynnwys yr ardal o Drecynon i Aberaman, Pentre a Threorci, Pontypridd a Chwmbrân. Mae'r rhan fwyaf o lifogydd tai yn parhau i ddigwydd yng Nghaerdydd a Chasnewydd.


Mae **achubiadau o ddŵr** wedi codi 52% (i 47) yn 2022-2023, ond roedd hyn yn is na'r cyfartaledd o 54 dros y pum mlynedd flaenorol. Digwyddodd bron i chwarter o'r digwyddiadau yng Nghaerdydd a'r cyffiniau y llynedd, gyda thri ym Mae Caerdydd a chwech arall ar hyd Afon Taf.

Mae mynychu i **gynorthwyo asiantaethau eraill** wedi cynyddu o 9% o'r categori digwyddiad hwn bum mlynedd yn ôl i bron 22% yn 2022-2023, gyda chyfanswm y digwyddiadau yn cynyddu o 176 i 666. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau sy'n sail i'r cynnydd hwn i gefnogi'r heddlu/ambiwlans (pedwar o bob pum digwyddiad erbyn hyn), gyda darparu cymorth i WAST gyda chleifion bariatrig yn cynrychioli ychydig dros 40% o'r rhain yn gyson. Cynyddodd nifer **y digwyddiadau meddygol** a fynychwyd o 32% (o 114 i 151) yn 2022-2023. Mae hyn yn ostyngiad ers 2017-2018 pan fynychwyd 396 o ddigwyddiadau ond mae'n uwch na'r blynyddoedd rhwng 68 a 114. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a mwy o salwch hirdymor yn ogystal â chyflyrau iechyd cronig, rydym yn disgwyl i'r tueddiadau hyn barhau.

Er i ni weld cynnydd mewn **digwyddiadau mynediad/allanfa**, roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl pan fynychom 789 o ddigwyddiadau (gostyngiad o 29%). Fodd bynnag, roedd y cynnydd a welwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn gostyngiad sydyn yn 2020-2021 ar ddechrau'r pandemig (278 o ddigwyddiadau) ac rydym wedi gweld cynnydd blynyddol ers hynny.


**Meincnodi** - Mae nifer y Galwadau Gwasanaethau Arbennig Eraill rydym yn eu mynychu fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r nifer ar gyfer Cymru gyfan, a Lloegr gyfan ill dau. Roedd y cynnydd mewn Galwadau Gwasanaethau Arbennig Eraill yn 2022-2023 (cynnydd o 14%) yn is na'r cynnydd yng Nghymru (yn uwch o 23%), ond yn fwy na'r cynnydd yn Lloegr (yn uwch o 2%).

## Marwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thân o'r holl danau




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 59 |
| Perfformiad gwirioneddol | 63 |
| Amrywiant | +6.8% |
| Graddfa i bob 100,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 0.4 |
| Cymru | 0.4 |
| Lloegr | 0.5 |

## Marwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thanau mewn tanau damweiniol




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 48 |
| Perfformiad gwirioneddol | 52 |
| Amrywiant | +8.3% |
| Graddfa i bob 100,000 o'r boblogaeth | |
| GTADC | 0.3 |
| Cymru | 0.4 |
| Lloegr | n/a |

Roedd cyfanswm y marwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thân yn 63, pedwar yn uwch na'n targed o 59 yn 2022-2023. Fodd bynnag, mae'r duedd tymor hwy yn gostwng gyda'r cyfartaledd blynyddol y deng mlynedd flaenorol yn 71.3 a chyfartaledd o 66.6 yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cyfraddau a gofnodwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn debyg i Gymru a Lloegr.

Gwnaethom ragori ar ein targed o 48 yn ymwneud â thanau damweiniol yn 2022-2023, gan gofnodi 52 o ddioddefwyr er bod gostyngiad o 53 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r duedd hon hefyd yn gostwng gyda'r cyfartaledd ar gyfer y deng mlynedd flaenorol yn 59.3 a 54.4 am y pum mlynedd flaenorol.


Bu llai o farwolaethau yn 2022-2023, gan ostwng o wyth i chwech ar gyfer yr holl danau, o chwech i bedwar ar gyfer tanau damweiniol mewn anheddau ac o saith i bump ar gyfer holl danau damweiniol.

Rhwng 2016 a 2023, cyfartaledd yr oedran ar gyfer marwolaethau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi (TDC) oedd 68 mlynedd gyda 63% o'r dioddefwyr yn byw ar eu pen eu hunain a thros oedran pensiwn. Oedran cyfartalog o 46 mlynedd oedd y bobl ag anafiadau angheuol mewn TDC a choginio oedd yr achos mwyaf cyffredin o dân.

Digwyddodd 15% o farwolaethau ac anafiadau mewn tanau damweiniol y llynedd mewn tanau lle'r oedd ffynhonnell y tanio yn gysylltiedig ag ysmygu a gododd i 50% ar gyfer marwolaethau mewn TDC. Llynedd, achoswyd 23% o farwolaethau ac anafiadau gan goginio, sy'n uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd o 16%.

Digwyddodd 48% o'r holl farwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thân a 46% ar gyfer tanau damweiniol yn yr 20% o ardaloedd sydd fwyaf difreintiedig.

## Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr Ystafell Tarddiad (YT)




| | |
|---|---|
| Targed 2022-2023 | 85% |
| Perfformiad gwirioneddol | 82.65% |
| Amrywiant | 2.35 Pwyntiau canran islaw'r targed |
| GTaA Canolbarth a Gorllewin Cymru | 86.56% |
| GTaA Gogledd Cymru | 86.84% |

Ar gyfer y dangosydd hwn, mae canran uwch yn well.

Mae hwn yn fesur o danau mewn anheddau parhaol lle bu tân neu ddifrod gan wres/fwg yn yr ystafell lle y dechreuodd neu mewn mannau nad oedd wedi lledu y tu hwnt i'r to neu ofod y to.

Nod y mesur hwn yw darparu dynodiad o'n llwyddiant yn nhermau negeseuon diogelwch cymunedol yn cael eu deall a'u gweithredu gan aelodau'r cyhoedd ac ymateb amserol ac effeithiol i alwadau brys ill dau.

Bu gostyngiad o 1.16 ym mhwynt canran y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r digwyddiadau yn yr ystafell wreiddiol yn 2022-2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n ostyngiad o 1 pwynt canran o'i gymharu â phum mlynedd yn ôl a gostyngiad o 0.96 pwynt canran o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl. O'r cyfanswm o 709 o danau mewn anheddau a fynychwyd yn 2022-2023, roedd 586 wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol.

O'r 123 o danau mewn anheddau nad oedd yn gyfyngedig i'r ystafell wreiddiol, cychwynnwyd 30 (25%) yn yr ystafell wely, 24 (20%) yn y gegin a 14 (11%) yn yr ystafell fyw.

Ar ôl cyrraedd y lleoliad, roedd 100 o danau eisoes wedi lledu y tu hwnt i'r ystafell wreiddiol, sy'n 14% o'r digwyddiadau a ystyriwyd gan y mesur hwn.

Nid oedd larwm yn bresennol yn 65 o'r 123 o danau nad oeddent wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol.

Ni adroddir y dangosydd hwn gan wasanaethau tân ac achub yn Lloegr a Chymru, ond roedd canran y tanau mewn anheddau a gyfyngwyd i'r ystafell wreiddiol yn is na Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

# Awdurdodau Unedol

## Blaenau Gwent

| Blaenau Gwent | 1 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser a 3 Ar Alwad | |
|---|---|---|
| | 27 Tredegar (Ar alwad) | 37 Glyn Ebwy (Cyflawn) |
| | 35 Abertyleri (Ar alwad) | 38 Brynmawr (Ar alwad) |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 442 | 513 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 493 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 41 |
| Larymau Ffug | 389 | 413 | % dros 65 | 45.0% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 91 |
| GTFf | 37 | 32 | Ymgysylltu ag Ysgolion | | Safleoedd ysgolion | 29 |
| GGA Arall | 135 | 133 | 80 o sesiynau | 2,663 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 69,814 | 66,904 |
| 16 neu'n is | 16,271 | 14,388 |
| Dros 65 | 12,477 | 13,523 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 4,361 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 109 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 53 |
| Cofebau Rhestredig | 12 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 1 |

## Pen-y-bont ar Ogwr

| Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend | 2 Orsaf Dân ac Achub Llawn Amser gyda chymhwyster Ar Alwad a 5 Gorsaf Ar Alwad | |
|---|---|---|
| | 01 Pen-y-bont ar Ogwr (Cyflawn/Ar Alwad) | 06 Cwm Ogwr (Ar Alwad) |
| | 02 Porthcawl (Ar Alwad) | 07 Pontycymer (Ar Alwad) |
| | 03 Mynydd Cynffig (Ar Alwad) | 08 Maesteg (Cyflawn/Ar Alwad) |
| | 05 Pencoed (Ar Alwad) | |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 455 | 455 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 1,371 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 75 |
| Larymau Ffug | 764 | 722 | % dros 65 | 43.0% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 115 |
| GTFf | 98 | 80 | Ymgysylltu ag Ysgolion | | Safleoedd ysgolion | 59 |
| GGA Arall | 277 | 265 | 149 o sesiynau | 5,995 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 139,178 | 145,488 |
| 16 neu'n is | 32,072 | 31,988 |
| Dros 65 | 24,854 | 30,095 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 8,535 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 246 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 375 |
| Cofebau Rhestredig | 59 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 0 |

Ystadegau Poblogaeth – 2011 yn erbyn Cymhariaeth Cyfrifiad 2021
Ymgysylltu ag Ysgolion – ymweliadau Cyfnod Allweddol, Criw Craidd a Sgyrsiau Tanau Gwair
Archwiliadau – Archwiliadau Diogelwch Tân a gynhaliwyd gan Tim Ddiogelwch Tân i Fusnesau
Safleoedd sy'n Benodol i Risg – Adeiladau lle delir gwybodaeth ymateb ragnodedig
Ysgolion - Safleoedd ysgolion gwladol ym Medi 2023, heblaw am unedau atgyfeirio disgyblion, ond yn cynnwys Ysgolion Arbennig

## Caerffili

| 2 Orsaf Dân ac Achub Llawn Amser gyda chymhwyster Ar Alwad a 3 Gorsaf Ar Alwad | |
|---|---|
| 21 Aberbargod (Cyflawn/Ar Alwad) | 30 Abercarn (Ar Alwad) |
| 24 Caerffili (Cyflawn/Ar Alwad) | 31 Rhisga (Ar Alwad) |
| 28 Rhymni (Ar Alwad) | |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 881 | 884 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 1,628 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 61 |
| Larymau Ffug | 817 | 889 | % dros 65 | 53.1% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 153 |
| GTFf | 88 | 96 | Ymgysylltu ag Ysgolion | | Safleoedd ysgolion | 87 |
| GGA Arall | 259 | 287 | 245 o sesiynau | 8,536 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 178,806 | 175,952 |
| 16 neu'n is | 44,052 | 40,038 |
| Dros 65 | 29,565 | 35,411 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 10,510 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr$^2$ | 278 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 377 |
| Cofebau Rhestredig | 48 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 1 |

## Caerdydd

| 4 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser | |
|---|---|
| 49 Eglwys Newydd | 51 Caerdydd Canol |
| 50 Rhath | 52 Trelái |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 995 | 1,117 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 2,276 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 173 |
| Larymau Ffug | 2,217 | 2,371 | % dros 65 | 42.0% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 474 |
| GTFf | 156 | 155 | Ymgysylltu ag Ysgolion | | Safleoedd ysgolion | 124 |
| GGA Arall | 707 | 770 | 274 o sesiynau | 11,106 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 346,090 | 362,310 |
| 16 neu'n is | 84,866 | 88,510 |
| Dros 65 | 45,552 | 52,497 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 16,526 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr$^2$ | 140 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 866 |
| Cofebau Rhestredig | 30 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 225 |

## Merthyr Tudful

| 1 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser gyda chymhwyster Ar Alwad ac 1 Gorsaf Ar Alwad | |
|---|---|
| 25 Treharris (Ar Alwad) | 26 Merthyr Tudful (Cyflawn/Ar Alwad) |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 331 | 261 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 579 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 14 |
| Larymau Ffug | 345 | 312 | % dros 65 | 32.3% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 62 |
| GTFf | 49 | 42 | **Ymgysylltu ag Ysgolion** | | Safleoedd ysgolion | 27 |
| GGA Arall | 103 | 120 | 40 o sesiynau | 1,221 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 58,802 | 58,839 |
| 16 neu'n is | 14,049 | 13,661 |
| Dros 65 | 9,796 | 11,112 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 3,464 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr$^2$ | 111 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 325 |
| Cofebau Rhestredig | 46 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 2 |

## Sir Fynwy

| 5 Gorsaf Dân ac Achub Ar Alwad | |
|---|---|
| 40 Y Fenni | 43 Cas-gwent |
| 41 Trefynwy | 44 Cil-y-coed |
| 42 Brynbuga | |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 200 | 277 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 574 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 63 |
| Larymau Ffug | 475 | 511 | % dros 65 | 58.5% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 96 |
| GTFf | 76 | 75 | **Ymgysylltu ag Ysgolion** | | Safleoedd ysgolion | 35 |
| GGA Arall | 154 | 171 | 274 o sesiynau | 11,106 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 91,323 | 92,957 |
| 16 neu'n is | 20,821 | 18,329 |
| Dros 65 | 19,043 | 24,042 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 6,534 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr$^2$ | 850 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 2,420 |
| Cofebau Rhestredig | 201 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 1 |

## Casnewydd

| | | |
|---|---|---|
| | **3 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser** | |
| | 45 Malpas | 47 Duffryn |
| | 46 Maendy | |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 753 | 962 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 1,067 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 46 |
| Larymau Ffug | 1,068 | 1,127 | % dros 65 | 45.6% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 161 |
| GTFf | 72 | 80 | **Ymgysylltu ag Ysgolion** | | Safleoedd ysgolion | 53 |
| GGA Arall | 288 | 336 | 127 o sesiynau | 5,467 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 145,736 | 159,587 |
| 16 neu'n is | 37,383 | 38,957 |
| Dros 65 | 23,751 | 27,063 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 8,495 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 190 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 435 |
| Cofebau Rhestredig | 70 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 14 |

## Rhondda Cynon Taf

| | | |
|---|---|---|
| | **3 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser gyda chymhwyster Ar Alwad a 6 Gorsaf Ar Alwad** | |
| | 9 Treorci (Ar Alwad) | 15 Pontypridd (Cyflawn/Ar Alwad) |
| | 10 Tonypandy (Cyflawn/Ar Alwad) | 16 Hirwaun (Ar Alwad) |
| | 11 Ferndale (Ar Alwad) | 17 Aberdar (Cyflawn/Ar Alwad) |
| | 13 Gilfach Goch (Ar Alwad) | 18 Abercynon (Ar Alwad) |
| | 14 Pont-y-clun (Ar Alwad) | |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 906 | 822 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 2,278 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 81 |
| Larymau Ffug | 1,078 | 1,072 | % dros 65 | 46.7% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 194 |
| GTFf | 165 | 156 | **Ymgysylltu ag Ysgolion** | | Safleoedd ysgolion | 113 |
| GGA Arall | 399 | 555 | 170 o sesiynau | 6,318 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 234,410 | 237,651 |
| 16 neu'n is | 56,356 | 54,510 |
| Dros 65 | 40,073 | 46,626 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 14,049 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 424 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 373 |
| Cofebau Rhestredig | 89 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 5 |

## Torfaen

| TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN | 2 Orsaf Dân ac Achub Llawn Amser a 2 Orsaf Ar Alwad | |
|---|---|---|
| | 32 Cwmbrân (Cyflawn) | 34 Abersychan Ar Alwad) |
| | 33 New Inn (Cyflawn) | 39 Blaenavon Ar Alwad) |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 302 | 418 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 856 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 62 |
| Larymau Ffug | 601 | 653 | % dros 65 | 53.0% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 103 |
| GTFf | 43 | 42 | Ymgysylltu ag Ysgolion | | Ysgolion | 32 |
| GGA Arall | 164 | 186 | 65 o sesiynau | 2,890 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 91,075 | 92,276 |
| 16 neu'n is | 22,112 | 20,946 |
| Dros 65 | 16,370 | 19,155 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 5,694 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 126 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 260 |
| Cofebau Rhestredig | 22 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 3 |

## Bro Morgannwg

| VALE of GLAMORGAN / BRO MORGANNWG | 1 Gorsaf Dân ac Achub Llawn Amser, 1 Llawn Amser gyda chymhwyster Ar Alwad a 2 Orsaf Ar Alwad | |
|---|---|---|
| | 4 Y Bontfaen (Ar Alwad) | 20 Y Barri (Cyflawn/Ar Alwad) |
| | 19 Llanilltud Fawr (Ar Alwad) | 22 Penarth (Cyflawn) |

| Ymateb | 21/22 | 22/23 | Atal | | Diogelu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 300 | 372 | Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y cartref | 1,184 | Archwiliadau a gyflawnwyd | 39 |
| Larymau Ffug | 613 | 676 | % dros 65 | 51.4% | Gwybodaeth Safle sy'n Seiliedig ar Risg | 202 |
| GTFf | 75 | 90 | School engagement | | Ysgolion | 55 |
| GGA Arall | 225 | 257 | 130 o sesiynau | 4,925 o bobl ifanc | | |

| Poblogaeth | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 126,336 | 131,939 |
| 16 neu'n is | 30,305 | 29,953 |
| Dros 65 | 23,055 | 28,990 |
| Aelwydydd un person dros 66 oed | | 8,491 |

| Amgylchedd | |
|---|---|
| Arwynebedd cilomedr² | 335 |
| Adeiladau sy'n Gofrestredig â Chadw | 745 |
| Cofebau Rhestredig | 113 |
| Adeiladau Tyrau Uchel | 13 |

# Archwiliadau Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2022-2023

## Archwilio Cyfrifon

Bob blwyddyn mae Archwilio Cymru'n archwilio datganiadau ariannol y Gwasanaeth. Cafodd archwiliad o'n cyfrifo ar gyfer 2022-2023 ei ohirio gan Archwilio Cymru o'r terfyn amser arferol o'r 31ain o Orffennaf i'r 30ain o Dachwedd. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cwblhau cysylltiol unwaith bydd yr archwiliad wedi'i orffen.

Rydym wedi bod yn gyson o dan ein cyllideb ar wariant cyfalaf a net ill dau am y tair blynedd ddiwethaf.

## Cyfrifyddiaeth

| | Archwiliwyd **2021-2022 £Miliwn** | Cyhoeddwyd **2022-2023 £Miliwn** | Cyllidwyd **2023-2024 £Miliwn** |
|---|---|---|---|
| Costau'n Gysylltiedig â Gweithwyr | 61.1 | 67.0 | 68.7 |
| Costau'n Gysylltiedig â Safleoedd | 5.3 | 5.6 | 6.3 |
| Costau Hyfforddi | 1.4 | 1.7 | 1.8 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4.2 | 6.2 | 5.8 |
| Costau'n Gysylltiedig â Thrafnidiaeth | 1.4 | 1.6 | 1.6 |
| Gwasanaethau a Gytundebwyd | 0.8 | 1.2 | 1.2 |
| Costau Cyfalaf / Prydlesu | 4.1 | 4.6 | 5.1 |
| Incwm | -4.3 | -5.9 | -1.0 |
| **Cyfanswm** | **74.0** | **82.0** | **89.4** |

## Ein cyllideb ar gyfer 2023-2024

| | |
|---|---|
| **Grantiau Refeniw** | **£2.5m** |
| **Grant Menter Ariannol Breifat** | **£926k** |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf** | **£16.4m** |
| Eiddo | £10.3m |
| Cerbydau | £5.0m |
| Offer TGCh | £864k |
| Offer | £240k |

## Archwiliadau Mewnol

Mae ein rhaglen archwilio mewnol yn rhan annatod o'n proses wella, gan ddarparu persbectif gwrthrychol ar agweddau o'n gwasanaeth. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan TIAA, ein harchwilydd mewnol cytundebol. Mae pob archwiliad yn asesu un maes o weithgarwch yn erbyn pedair lefel o sicrwydd (sylweddol, rhesymol, cyfyngedig neu ddim), ac argymell camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella. Trosglwyddir y camau hyn i'n System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) lle cânt eu monitro hyd nes bydd gweithredu'n gyflawn.

Yn ystod 2022-23, cynlluniwyd 12 o archwiliadau a derbyniwyd adroddiadau ar gyfer naw, lle graddiwyd pedwar fel sicrwydd sylweddol a phump yn sicrwydd rhesymol.

| Enw'r Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Nifer y Camau |
|---|---|---|
| Adolygiad Sicrwydd o GDPR | Sylweddol | 4 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth AD - Hyfforddi | Sylweddol | 1 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth AD - Llesiant | Sylweddol | 1 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reolyddion Lliniaru | Sylweddol | 1 |
| Adolygiad Sicrwydd o Ddiogelwch Rhwydwaith | Rhesymol | 4 |
| Adolygiad Sicrwydd o Restrau | Rhesymol | 5 |
| Adolygiad Sicrwydd o Ymweliadau â Gorsafoedd | Rhesymol | 8 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reolyddion Ariannol Allweddol | Rhesymol | 1 |
| Adolygiad Sicrwydd o Gydweithredu - Cyd-leoli | Aros am Adroddiad | |
| Adolygiad Sicrwydd o'r Gyflogres | Rhesymol | 3 |
| Adolygiad Sicrwydd o Reoli Cytundebau | Aros am Adroddiad | |
| Adolygiad Sicrwydd o Gaffael Cynliadwy | Aros am Adroddiad | |

Yn ychwanegol, ymgymerwyd ag adolygiad archwilio dilynol ar gamau oedd yn deillio o'r 15 archwiliad a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2022. Dangosodd yr adolygiad bod 18 cam heb eu gweithredu, bod 11 yn weddill ac ystyriwyd un argymhelliad ond nad oedd angen camau.

## Archwiliadau Allanol

Mae Archwilio Cymru yn cynnal archwiliad blynyddol o'n cynllunio strategol a gwella i gadarnhau bydd y rhain yn cwrdd â gofynion cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru a nodwyd o fewn deddfwriaeth gan gynnwys y Fframwaith Cenedlaethol 2016 a y Mesur (Cymru) 2009.

Maent yn sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer gwella'n parhau, wrth osod amcanion, ac yn asesu ein cynnydd ac yn adrodd ar yr amcanion hyn. Mae'r archwiliad blynyddol hyn yn adolygol, yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Cadarnhaodd yr adroddiad o'n Harchwiliad Perfformio 2021-2022 ein bod yn cwrdd â'n cyfrifoldebau:

"Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2021-22 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a fy Nghod Ymarfer Archwilio. O ganlyniad i f'archwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i gyflawni'i ddyletswyddau'n ddigonol."

Mae Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhaglen o archwiliadau canolbwynt blynyddol i adolygu meysydd arbennig o weithgareddau i'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Yn 2022-2023, roedd hyn yn canolbwyntio ar Leihau Larymau Ffug. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar y 27ain o Orffennaf 2023, yn nodi pum argymhelliad gyda'r sylw fod:

"Yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd yn ei ddull tuag at reoli larymau tân ffug. Bydd gwneud defnydd gwell o ddata a dysgu o fannau eraill yn adnabod cyfleoedd i reoli perfformiad a risgiau'n well."

# Ein Themâu Strategol - Cefnogi DLl CD

Mae'r tabl isod yn nodi'r wyth Thema Strategol sy'n sail i'n Cynllun Strategol 2020-2030. Mae ein hamcanion gwella blynyddol wedi'u hadeiladu o fewn y themâu hyn, sydd hefyd yn strwythuro ein blaenoriaethau a'n cynllunio wrth i ni weithio i gyflawni ein datganiad cenhadaeth:

**"I wneud De Cymru yn fwy diogel, trwy leihau risg."**

Rydym wedi mapio'r themâu hyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLl CD) i ddangos sut mae ein blaenoriaethau'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

| Thema Strategol | |
|---|---|
| **Eich Cadw'n Ddiogel** | |
| Canolbwyntio ar waith atal i helpu lleihau'r angen i chi ein galw ni. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Ymateb i'ch Argyfwng** | |
| Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Gweithio gyda'n Partneriaid** | |
| Gweithio gyda BGC De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cwrdd â'ch anghenion. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Ymgysylltu a Chyfathrebu** | |
| Sicrhau bydd ein holl gymunedau a'n staff ynghlwm wrth helpu ni i ddarparu gwasanaeth ardderchog. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Diogelu Ein Hamgylchfydedd** | |
| Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Defnyddio Technoleg yn Dda** | |
| Edrych yn barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ein gwasanaeth i chi | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |

| Thema Strategol | |
|---|---|
| **Gwerthfawrogi Ein Pobl** | |
| Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |
| **Parhau i Weithio'n Effeithion** | |
| Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol. | |
| **Yn cefnogi Nodau DLl CD** | **Yn cefnogi Amcanion BGC** |

### Nodau DLl CD

- Cymru Gydnerth
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang
- Cymru Lewyrchus
- Cymru â Ddiwylliant Bywiog ac lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
- Cymru sy'n fwy Cyfartal

### Amcanion BGC

- Cymunedau Diogelach
- Cychwyn Gorau
- Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd
- Cydweithio
- Dinasoedd sy'n Gweithio
- Cymryd Rhan
- Gwarchod yr Amgylchedd
- Cyflogadwyedd, Sgiliau a Chyfleoedd
- Ffordd o fyw Iach

# Eich Cadw'n Ddiogel

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

### Beth yw ystyr hyn?

Drwy Eich Cadw'n Ddiogel, byddwn yn gweithio i leihau'r risg o dân ac anafiadau cysylltiedig mewn eiddo domestig, busnes ac adeiladau eraill. Bydd ein gwaith i leihau tanau bwriadol, gan gynnwys tanau gwyllt a sbwriel, a diogelwch dŵr yn sicrhau bod cymunedau'n gallu mwynhau amgylcheddau awyr agored yn ddiogel. Bydd ein gweithgareddau diogelwch ffyrdd yn gwneud teithio'n fwy diogel.

**Canolbwyntio ar waith atal i helpu lleihau'r angen i chi ein galw ni.**

### Sut byddwn yn eich cadw'n ddiogel:

- Lleihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Lleihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)
- Lleihau nifer y tanau bwriadol
- Gwella diogelwch yn y dŵr ac o'i gwmpas
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

### Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:

**Defnyddio gwybodaeth i nodi unigolion a grwpiau sy'n agored i niwed er mwyn blaenoriaethu'r modd y darperir ein gwasanaethau, a gweithio ar sail Cymru gyfan i gymhwyso sgôr risg ein Gwiriadau Diogelwch Cartref**

Mae is-grwpiau Cymru gyfan wedi gweithio ar sefydlu gradd risg unedig. Bydd hyn yn ein galluogi i wella darpariaeth gwasanaeth trwy haenu risg, cefnogi partneriaethau a datblygu hyfforddiant. Wrth i'n hatgyfeiriadau partneriaeth gael eu hadfywio, roedd modd i ni ddefnyddio systemau data i gefnogi gorsafoedd i nodi grwpiau risg uchel a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed trwy ddefnyddio cyfrifiad yn seiliedig ar risg.

**Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gwblhau ymweliadau cartref ar gyfer pobl agored i niwed yn ein cymunedau wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau a achosir gan Covid-19**

Fe wnaethom ddatblygu proffil i ddeall yn well y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i danau damweiniol yn y cartref. Roedd hyn yn cyd-fynd â ffactorau risg a nodwyd yn genedlaethol, gan gynnwys oedran, symudedd, y defnydd o ddeunyddiau ysmygu a ffactorau economaidd-gymdeithasol, ac mae hyn wedi helpu llywio ein dull o nodi pobl agored i niwed. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ailgyflwyno ein llwybrau atgyfeirio ar gyfer cwympiadau sy'n darparu llwybr atgyfeirio i fynd i'r afael â'r ffactor risg hwn. Mae ein gwaith partneriaeth gyda chydweithwyr yn y gwasanaethau iechyd a gofal wedi cynyddu i gynnwys rhyddhad cleifion o'r ysbyty a chymorth dementia. Mae datblygu partneriaethau gyda sefydliadau Tai Cymdeithasol ac eraill a all helpu i adnabod aelwydydd ynysig wedi parhau. Ein nod yw cwblhau gwiriad diogelwch tân yn y cartref yn dilyn pob digwyddiad domestig, gan wneud i bob cyswllt gyfrif.

**Ail-lansio'r fenter Gwerthusiad Dysgu ar ôl y Tân (LEAF) er mwyn deall yn well y profiad o danau damweiniol mewn cartrefi a chefnogi'r rhai sydd wedi eu profi**

Mae LEAF wedi'i hadolygu ac cael ei dreialu. Mae digwyddiadau sy'n bodloni meini prawf y prosiect yn cael eu dyrannu i Ymarferwyr Diogelwch yn y Cartref i gynnal ymweliadau LEAF - gallant ddarparu cymorth ychwanegol lle bo angen yn ogystal â chwblhau holiadur. Bydd canlyniadau hyn, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd yn ystod gwiriadau diogelwch yn y cartref ac mewn digwyddiadau, yn ein helpu ni i gefnogi deall ymddygiadau unigolion yn ystod ac yn dilyn tanau damweiniol mewn cartrefi.

**Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu addysg diogelwch ffyrdd hanfodol mewn perthynas â menter newydd Llywodraeth Cymru gan leihau'r terfyn cyflymder 30mya i 20mya mewn rhai ardaloedd**

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu cyflwyniad o'r enw 'Just a Minute' i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i derfynau cyflymder. Mae hyn, ynghyd â'n model newid ymddygiad a oedd yn fenter ar y cyd â Gan Bwyll a Llywodraeth Cymru, wedi'i gyflwyno i dros 550 o aelodau'r cyhoedd mewn gwahanol leoliadau ar draws De Cymru.

**Gweithredu rhaglenni ymarfer hyfforddi sy'n cyd-fynd â'r risgiau o fewn ardal pob gorsaf a chynlluniau hyfforddi Cyd-reoli Tân (CRT)**

Seiliwyd rhaglen ymarfer y flwyddyn yn seiliedig ar senarios a nodwyd fel rhai risg uchel. Ymatebodd grwpiau o orsafoedd tân ac achub i friffiau a oedd yn cynnwys tân mewn bloc o fflatiau, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yn cynnwys amryfal gerbydau a digwyddiad yn ymwneud â chemegau mewn eiddo masnachol. Cynhaliwyd 144 o ymarferion ar wahân i brofi ein hymateb a chefnogi ein cynlluniau rheoli risg cymunedol lleol.

**Diogelwch Tân i Fusnesau ac Adeiladau Tŵr Uchel**

Rydym wedi parhau i weithio i sicrhau diogelwch mewn adeiladau tŵr uchel wrth gysylltu â datblygwyr, Llywodraeth Cymru, pobl cyfrifol – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom baratoi ar gyfer ein rhaglen archwilio Cam 3 i sicrhau bydd perchnogion adeiladau yn ymwybodol o ddiffygion a'u cyfrifoldeb i adfer hyn. Dechreuodd yr archwiliadau hyn yn 2023-2024 ac maent wedi'u cefnogi gan ein gwaith cydweithredol ar ddiogelwch adeiladau.

# Ymateb i'ch Argyfwng

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymry iachach

## Beth yw ystyr hyn?

Mae hwn yn canolbwyntio ar ymateb yn effeithlon ac effeithiol i unrhyw argyfwng ac yn rhoi sicrwydd ein bod yn barod i ddiwallu anghenion newidiol ein cymunedau, o boblogaeth sy'n heneiddio i effeithiau newid hinsawdd a thechnoleg newydd fel cerbydau trydan.

**Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch.**

**Sut byddwn yn ymateb i'ch argyfwng:**

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- Gwneud ein gorau glas i sicrhau y bydd ein diffoddwyr tân System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, ein staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol yn ein cymuned

**Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:**

**Nodi lleoliadau realistig ar draws ardal y Gwasanaeth i gyflwyno hyfforddiant sy'n cyd-fynd â risgiau allweddol a meysydd datblygu gweithredol**

Canolbwynt ein rhaglen ymarfer oedd senarios sy'n seiliedig ar risg a nodwyd yn lleol gyda grwpiau o orsafoedd tân ac achub yn ymateb i friffiau a oedd yn cynnwys: tân mewn bloc o fflatiau, gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn ymwneud ag amryfal gerbydau a digwyddiadau cemegol mewn eiddo masnachol. Cynhaliwyd cyfanswm o 144 o ymarferion i brofi ein hymateb a chefnogi ein cynlluniau rheoli risg cymunedol ar gyfer gorsafoedd (CRhRC gorsafoedd).

**Archwilio cyfleoedd i wella'r broses recriwtio ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad**

Fe wnaethom symleiddio'r broses recriwtio Ar Alwad fel bod ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau eu hyfforddiant cychwynnol yn gynt. Mae llyfryn Datblygu Ar Alwad newydd yn rhoi cynllun pedair wythnos cyn y cwrs cychwynnol. Mae hyn wedi gwella cyfraddau cadw wrth i recriwtiaid gael eu paratoi'n well. Yn ogystal â hyn, cynhaliom bron i 40 o ddigwyddiadau recriwtio Ar Alwad yn ystod y flwyddyn ac erbyn diwedd mis Chwefror roeddem wedi recriwtio bron ddwywaith y nifer o ddiffoddwyr tân Ar Alwad ag yr oeddem wedi'u recriwtio yn 2021-2022.

**Adolygu hydwythdedd mewn timau ar draws y Gwasanaeth i sicrhau bod gweithgareddau craidd yn cael eu cefnogi'n gynaliadwy mewn cyfnodau heriol**

Fel rhan o'n proses Adolygu Personol sydd ar ei newydd wedd, mae'r rhaglenni Llwybrau yn cynnig cyrsiau hyfforddi sy'n cyd-fynd â llwybr personol unigolion. Mae hyn yn cynnwys cwrs ar Hydwythdedd: Adeiladu eich pecyn cymorth personol eich hun, sy'n cyflwyno'r cysyniad o hydwythdedd ac yn amlygu'r effaith y gall ei chael ar unigolion a'u cydweithwyr. Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer personél gwisg a chorfforaethol ill dau.

**Amnewid tri thendr achub yn ein fflyd am gerbydau newydd, wedi'u huwchraddio i allu achub o ddŵr Math C**

Yn hwyr yn 2022, fe wnaethom dderbyn tri thendr achub newydd a oedd wedi'u huwchraddio i allu achub o ddŵr Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Chysylltiadau Gwledig (DEFRA) Math C yn dilyn ymchwil i gaffael siasi addas ar gyfer ein hadeiladwyr cerbydau arbenigol. Roedd modd i'n adeiladwyr cerbydau arbenigol adeiladu i fanyleb a oedd yn bodloni gofynion y Gwasanaeth. Lleolir y rhain yng Ngrsafoedd Tân ac Achub Pontypridd, Treláі a Merthyr Tudful i wella eu galluoedd chwilio a gweithrediadau achub cychod heb fodur, gan gynnwys ymateb i lifogydd.

Cynnal prosiect adnewyddu mân offer, gan dreialu dillad gwaith tywydd gwlyb arloesol, llifiau cilyddol ac offer GTFf a weithredir gan fatri.

Ymgymerwyd â phrosiect i adnewyddu rhywfaint o fân offer gan gynnwys dillad gwaith tywydd gwlyb, llifiau cilyddol ac offer gwrthdrawiadau ar y ffyrdd a weithredir gan fatri a'i gwblhau'n llwyddiannus.

**Sicrhau cytundeb ar y cyd â'n cyrff cynrychioliadol i roi system amserlennu hyblyg ddiwygiedig ar waith ar gyfer gorsafoedd tân ac achub**

Mae system amserlennu hyblyg effeithiol wedi cael ei chytuno mewn egwyddor gan yr Uwch Dîm Rheoli erbyn hyn. Bydd y system hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol ar gais unrhyw un o'r partïon dan sylw, fel y bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn parhau'n effeithiol i bawb. Dylai adolygiadau rheolaidd sicrhau lefelau criw gorau posibl trwy ddefnyddio cynllunio uwch a chyfateb galwadau ag adnoddau.

# Gweithio â Phartneriaid

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

Cymru lewyrchus

## Beth yw ystyr hyn?

Mae partneriaethau a sefydlwyd ers tro yn ein helpu i wella gwasanaethau i gymunedau De Cymru. Mae cydweithio ag eraill yn golygu ein bod yn osgoi dyblygu adnoddau, gan wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn creu profiad gwell i'r cyhoedd wrth i'n dealltwriaeth o sefydliadau a gwasanaethau eraill gynyddu, gallwn gyfeirio at ddarparwyr eraill a gallant gyfeirio atom.

**Gweithio gyda BGC De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cwrdd â'ch anghenion.**

### Sut byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid:

- Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gefnogi ein cymunedau
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

### Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:

**Gweithio gyda Chwarae Teg, sef elusen sy'n ysbrydoli, arwain a darparu cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru, i gefnogi'r adolygiadau AD yr ydym yn eu cynnal, gan gynnwys ein gweithgarwch recriwtio**

Ym mis Medi 2022 cyrhaeddom restr fer gwobr Cyflogwr Chwarae Teg gan Chwarae Teg am ein hymrwymiad i greu Cymru gyfartal rhwng y rhywiau. Cefnogwyd hyn yn fawr gan y cynnydd mewn ceisiadau diffoddwyr tân amser cyflawn sy'n fenywod, cynnydd o 10% yn 2021 i 12% yn 2022. Roedd 14% o'r ymgeiswyr hynny oedd yn fenywod yn llwyddiannus o gymharu â 6% o ymgeiswyr oedd yn ddynion.

**Parhau i gefnogi'r CAS (Cynllun Awdurdod Sylfaenol) cyfredol, gan weithio mewn partneriaeth â busnesau i sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth ddarparu cyngor diogelwch tân a gweithgarwch rheoleiddio. Archwilio i bartneriaethau newydd a ffyrdd arloesol o gydweithio â grwpiau tai cymdeithasol**

Mae'r gefnogaeth i'r CAS cyfredol yn parhau, gan weithio mewn partneriaeth â busnesau a phartneriaid tai cymdeithasol i sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth ddarparu cyngor diogelwch tân a gweithgarwch rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda Chartrefi Cymunedol Cymru i roi cyngor i'w haelodau ledled Cymru.

**Diogelwch Cymunedol**

Mae atgyfeiriadau gan bartneriaid hefyd wedi'u hail ysgogi gydag adolygiad o'n cytundebau cyfredol. Rydym wedi penodi Rheolwr Partneriaeth newydd o fewn y strwythur Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau i eithafu gweithio gyda phartneriaid. Yn ogystal ag annog cyfeiriadau gan bartneriaid, byddwn yn cynnig hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ynghyd â sicrhau bod ein proses atgyfeirio ein hunain i asiantaethau eraill yn gyfredol ac yn bodloni anghenion ein cymunedau.

**Rhentu Doeth Cymru**

Ym mis Mawrth 2023, cafodd y Gwasanaeth bartneriaeth newydd gyda Rhentu Doeth Cymru sy'n cynorthwyo landlordiaid yng Nghymru i gydymffurfio â rhwymedigaethau Deddf Tai (Cymru) 2014 a darparu cyngor ar rentu cartrefi diogel ac iach. Mae'r trefniant partneriaeth hwn yn cynnwys gwneud atgyfeiriadau i'w hanfon ymlaen yn dilyn gwiriadau diogelwch cartref mewn eiddo sy'n cael eu rhentu'n breifat nad sy'n cydymffurfio â safonau diogelwch tân. Mae'r bartneriaeth yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ar y 1af o Ragfyr 2022. Mae 'Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016' wedi newid y ffordd y mae landlordiaid yn gallu rhentu eu heiddo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw hyd at safon benodol. Mae hyn yn cynnwys profion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau mwg gweithredol a synwyryddion carbon monocsid yn cael eu gosod.

# Ymgysylltu a Chyfathrebu

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Cymru o ddiwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg ffyniannus

## Beth yw ystyr hyn?

Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein cymunedau a'n staff yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth cymunedol rhagorol, drwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'n staff a'n dinasyddion. Mae hyn yn gymorth i ni wrth lunio ein gweithgareddau cyfredol ac i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn ceisio mwy o safbwyntiau ar sut rydym yn rhannu gwybodaeth.

**Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol.**

### Sut byddwn yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu:

- Cynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael lleisio eu barn am yr hyn rydyn ni'n gwneud
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel drwy ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

### Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:

**Ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i annog ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr swyddi i ymuno â'n Gwasanaeth**

Rydym wedi canolbwyntio o'r newydd ar amrywiaeth o fewn recriwtio ac ym mis Rhagfyr 2022, aeth y timau recriwtio ac ymgysylltu i fosg Dar-Ul-Isra yn Cathays, Caerdydd ar gyfer eu Ffair Swyddi flynyddol gyntaf i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i arddangos cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys gorsafoedd lleol i godi ymwybyddiaeth.

**Cynnal ymwybyddiaeth effeithiol o ddigwyddiadau cymunedol effaith uchel ynghyd â dychwelyd i ddigwyddiadau yn yr orsaf wrth i gyfyngiadau Covid-19 ddod i ben er mwyn hyrwyddo pynciau Lleihau Risg a gwella perthnasoedd â phartneriaid a chymunedau lleol**

Erbyn hyn mae gorsafoedd tân ac achub yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau unwaith eto yn dilyn cyfyngiadau Covid-19. Gan fod ein gorsafoedd yn rhan annatod o'n cymunedau lleol, rydym yn croesawu ymgysylltiad o bob maes. Mae hyn yn cynnwys grwpiau ieuenctid sy'n ymweld â gorsafoedd a darparu lleoliad i gynnal clinigau cwympiadau gyda chydweithwyr GIG. Rydym yn awyddus i ddod o hyd i gyfleoedd ychwanegol i ddatblygu hyn drwy weithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill.

**Datblygu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Rydym wedi cynhyrchu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu sydd ar waith. Mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu gyda'r nod o hyrwyddo ein dulliau cyfathrebu ac amlygu sut rydym yn cadw at amcanion strategol y Gwasanaeth. Mae'r strategaeth wedi cael ei dosbarthu'n fewnol a bydd ar gael ar ein gwefan.

**Parhau i dreialu amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu â'n cymunedau**

Ystyrir dulliau nad ydynt yn rhai digidol ym mhob cynllun ymgyrchu mawr a chyfeirir atynt yn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r dulliau a ddefnyddir, megis ein hymgyrch diogelwch dros y Nadolig ac ymgyrchoedd recriwtio diffoddwyr tân Llawn Amser, yn cynnwys defnyddio cerbydau hysbysfyrddau, taflenni, pamffledi, hysbysebion papur newydd, radio a theledu, baneri awyr agored, a digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

**Ailsefydlu'r Prosiect Momentum, cynllun sy'n cynorthwyo goroeswyr cam-drin domestig ac sy'n helpu'r teulu cyfan i fagu hyder**

Mae'r Prosiect Momentwm wedi'i hatal.

**Datblygu cyngor a chanllawiau Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau ymhellach ar ein gwefan**

Rydym wedi gwella'r ystod o wybodaeth diogelwch tân i fusnesau sydd ar gael ar ein gwefan. Mae hwn yn cynnwys cyfrifoldebau, lleihau galwadau diangen, drysau tân, chwistrellwyr, cosbau a chanlyniadau ynghyd â chanllawiau defnyddiol eraill i berchnogion busnes a chyflogwyr.

Gweler y ddolen ganlynol am ragor o wybodaeth:

**Parhau i gefnogi newid diwylliannol drwy hyrwyddo mentrau ac atebion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CACh), gan annog cynnwys staff a'u cyfranogiad**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd sgyrsiau CACh yn rhan o bob sesiwn sefydlu ac ym mis Mai 2022 cynhaliwyd Diwrnod Ymgysylltu Arweinwyr Canol oedd yn canolbwyntio ar gynhwysiant gyda dros 100 o staff yn mynychu. Mae Arweinydd CACh ar hyn o bryd yn siarad ag amrywiaeth o dimau i ganfod y gofynion ar gyfer CACh i bob tîm ynghyd â hyrwyddo cynhwysiant ar draws y Gwasanaeth.

Roedd digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon (Hydref 2022) yn cynnwys hyrwyddo ar draws y cyfryngau cymdeithasol, sesiwn Holi ac Ateb byw gyda dau ddiffoddwr tân am eu profiadau byw, proffiliau staff (ar gyfer pobl o gymunedau duon) wedi'u diweddaru a hyrwyddo'r proffiliau hyn a'u straeon yn Niwrnod 999 ym Mae Caerdydd.

# Diogelu ein Hamgylchedd

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

Cymru iachach

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

## Beth yw ystyr hyn?

Mae gan ein gwaith ffocws cymunedol cryf, gan wneud yr amgylchedd naturiol yn ddiogel ac yn hygyrch. Mae gwybodaeth am safleoedd gwarchodedig a chefnogi gweithredu lleol yn allweddol, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion a chefnogi partneriaethau lleol.

**Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer genhedloedd y dyfodol**

### Sut byddwn yn diogelu ein hamgylchedd:

- Lleihau'r defnydd o ddeunyddiau defnydd untro
- Ehangu'r defnydd o gerbydau trydanol
- Lleihau ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon ill dau
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir (Newydd 2022-2023)

### Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:

**Cynyddu nifer y mannau gwefru cerbydau trydan yn y Pencadlys a'n gorsafoedd tân ac achub**

Rydym wedi sefydlu mannau gwefru cerbydau trydan mewn 12 safle erbyn Ebrill 2023 ac wedi cwblhau 26 lleoliad arall erbyn diwedd Mai 2023. Mae'r argaeledd cynyddol hwn wedi ehangu ein cyfleoedd teithio gwyrddach wrth i ni annog ein staff a'n criwiau i ddechau defnyddio cerbydau trydan.

**Sicrhau cyllid i brynu dwy fan drydan fawr arall**

Mae ein fflyd erbyn hyn yn cynnwys 41 o gerbydau trydan. Mae'r cerbydau hyn wedi cynyddu ein heffeithlonrwydd ac wedi ein helpu i leihau ein hallyriadau carbon a llygredd o allyriadau pibellau cynffon. Ar ben hyn, rydym wedi gweithredu cynllun cyfnewid parhaus gyda'r nod o gyrraedd fflyd o gerbydau gwyrddach.

**Rhoi mwy o ystyriaeth i ffyrdd o leihau symudiadau cerbydau, a'n defnydd o ddeunyddiau untro a deunyddiau na ellir eu hailgylchu i gyflawni yn erbyn ein Cynllun Lleihau Carbon**

Rydym wedi llofnodi Siarteri Teithio Iach sector cyhoeddus Caerdydd, Bro Morgannwg a Gwent. Yn 2022 llwyddom i gyflawni ein holl ymrwymiadau ar gyfer Siarter Teithio Iach Caerdydd a byddwn yn symud i Lefel 2 Siarter Teithio Gwent. Rydym yn anelu at sefydlu teithio cynaliadwy ar draws y Gwasanaeth.

**Gweithredu a defnyddio traciwr ôl troed carbon allanol**

Adolygodd ein Tîm Cynaliadwyedd ôl-troed ein hallyriadau carbon ynghyd ag ailgyfrifo ein gwaelodlin ar gyfer 2018-2019 fel 9,290 tunnell o $CO^2e$. Yn 2022-2023, gostyngodd hyn i 9,188 tunnell o $CO^2e$ wrth edrych ar bedwar categori sef Treuliau Busnes, Ynni, Fflyd a'r Gadwyn Gyflenwi. Rydym yn gweithio ar adolygiad pellach fydd yn caniatáu i ni gymharu ein hallyriadau ôl-toed carbon yn rhwyddach gyda chyrff cyhoeddus eraill.

**Cyflwyno monitro faint sy'n cael ei argraffu i leihau'r defnydd o bapur**

Rydym wedi gweithredu cytundeb ar gyfer cyfleuster argraffu newydd, gan ddisodli argraffwyr aml-swyddogaeth yn y Pencadlys, Iechyd Galwedigaethol a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd. Mae'r modelau newydd a mwy effeithlon hyn yn ein galluogi i olrhain meintiau print a hyd yma rydym wedi gweld gostyngiad o 43% yn y pryniant papur copïwr A4.

**Cyflwyno technoleg sychu newydd ym mhob gorsaf dân ac achub**

Mae'r cyflwyniad hwn wedi parhau gan gwblhau'r gwaith mewn 17 o orsafoedd, gyda gwaith i'w wneud ar y 10 gorsaf dân ac achub Ar Alwad sy'n weddill. Mae'r dechnoleg hon yn sych sensitif a bydd yn 'cau i lawr' yn awtomatig pan fydd deunyddiau'n sych, sy'n arbed ynni ac yn lleihau costau.

**Adolygu a monitro ein cofnodi gwastraff yn rheolaidd**

Dyfarnwyd tendr cytundeb gwastraff newydd a'i gyflwyno erbyn diwedd 2023-2024. Bydd y contract hwn yn cynyddu ein gallu ailgylchu, yn galluogi i ni fonitro ein gwastraff ac yn ein gyrru ymlaen yn ein hymgais am gynaliadwyedd.

**Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd ffurfiol**

Erbyn hyn rydym wedi cwblhau a gweithredu ein Strategaeth Ymgysylltu Cynaliadwyedd, gyda gwybodaeth ar gael i'n gweithwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys manylion am sut rydym yn bwrw ymlaen wrth leihau ein hôl troed carbon.

**Symud ymlaen â gosod paneli solar yn y Pencadlys a Gorsaf Dân ac Achub y Barri a cheisio cwblhau gosodiadau pellach ar draws y Gwasanaeth yn y dyfodol**

Mae gwaith yn y Pencadlys wedi'i ohirio yn dilyn arolygon rhagarweiniol. Mae'r fanyleb a'r cytundeb ar gyfer Gorsaf Dân ac Achub y Barri wedi cael eu datblygu ac mae archwiliadau wedi'u cynnal. Disgwylir i'r broses dendro a'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023-2024. Mae gwaith ar strategaeth hirdymor ar y gweill gydag Energy Cymru i archwilio dichonoldeb safleoedd eraill.

Gellir gweld ein Cynllun Lleihau Carbon YMA.

# Defnyddio Technoleg yn Dda

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang

Cymru iachach

## Beth yw ystyr hyn?

Mewn byd cynyddol ddigidol, rhaid inni fod yn gyfrifol yn ein defnydd o dechnoleg a rheoli data. Mae ein systemau felly'n datblygu'n barhaus i sicrhau diogelwch data wrth gynorthwyo ein gweithgareddau.

Edrych yn barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wella ein gwasanaeth i chi.

**Sut byddwn yn defnyddio technoleg yn dda:**

- Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar hyd y Gwasanaeth

**Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:**

**Cychwyn prosiect system cofnodi a rheoli dysgu datblygu personol, i sicrhau bod pecynnau e-ddysgu'n cydymffurfio â deddfwriaeth, Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol a pholisi Gwasanaeth**

Ym mis Mawrth, rhyddhawyd y System Rheoli Dysgu (SRhD) newydd a elwir yn 'e-Hyb'. Yn y SRhD hwn bydd staff yn dod o hyd i e-ddysgu, a chyfleuster hunanwasanaethu i archebu lle ar Ddosbarthiadau Meistr a digwyddiadau eraill. Mae e'n cynnal yr holl sgiliau nad ydynt yn dechnegol neu 'feddal' a datblygiad i'r staff cyfan ar draws y Gwasanaeth.

Mae nifer o gyrsiau gorfodol ar draws y Gwasanaeth yn cael eu gweithredu yn ystod y cyfnod sefydlu gan gynnwys Cyflwyniad i Duedd Anymwybodol, Iaith Gynhwysol a Chyfathrebu ac Arweinyddiaeth Gynhwysol (ar gyfer rheolwyr llinell). Mae ystadegau'n awgrymu bod y rhain wedi bod yn llwyddiannus gyda 78% o'r staff yn cwblhau hyfforddiant Tuedd Anymwybodol, 72% wedi cwblhau Iaith a Chyfathrebu Cynhwysol ac 83% o reolwyr llinell wedi cwblhau hyfforddiant Arweinyddiaeth Gynhwysol.

**Mudo i Microsoft Office 365, gan gynnwys defnyddio Meddalwedd Teams Microsoft Office ar gyfer cyfarfodydd rhithwir**

Dechreuodd y broses o gyflwyno Microsoft 365 yn raddol ym mis Ebrill 2022. Fe'i cyflwynwyd fesul adran i leihau'r risg o effaith negyddol ar arferion gwaith, gan sicrhau parhad, tra darparwyd hyfforddiant i annog mabwysiadu'r nodweddion a'r systemau newydd. Mae'r cyfleuster hwn wedi darparu cyfathrebu mwy effeithlon o fewn y Gwasanaeth ac wedi lleihau'r angen i deithio i gyfarfodydd.

**Lansio ein Stiwdio Cyfryngau newydd fel y cawn greu a darparu cynnwys aml-gyfrwng o ansawdd uwch yn gynt i sianeli digidol**

Mae'r stiwdio cyfryngau wedi'i chwblhau erbyn hyn ac o ganlyniad i'r ailwampio hwn gallwn gynnal sesiynau Holi ac Ateb yn fyw ar gyfer digwyddiadau megis Mis Hanes Pobl Dduon ac i gynorthwyo recriwtio Ar Alwad. Mae'r stiwdio yn ein galluogi i brosesu fideos a chefnogi ein hanghenion cyfathrebu mewnol. Mae'r tîm cyfryngau hefyd wedi gweithio gyda'r uned cymorth hyfforddi yng Nghanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd ar ffrydiau byw gydag amryfal gamerâu ar gyfer gorymdeithiau cwblhau hyfforddiant a digwyddiadau eraill.

**Datblygu a chyflwyno pecyn hyfforddi ar gyfer y Camerâu Delweddu Thermol (CDTh) newydd**

Rydym wedi llwyddo i uwchraddio i gamerâu ysgafnach, llai sy'n darparu delweddau o ansawdd gwell. Mae pecyn hyfforddi ar gyfer y CDTh newydd hyn wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i'r holl bersonél gweithredol perthnasol.

**Gwneud y defnydd gorau o offer geo-ofodol i gynorthwyo adnabod lleoliad y galwr**

Rydym yn parhau i archwilio'r defnydd o offer geo-ofodol megis What3Words i helpu lleoli digwyddiadau, a fydd o fudd arbennig ar gyfer tanau awyr agored a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Arolwg Ordnans i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn defnyddio data lleoliad ac yn elwa o'u harloesedd wrth ddatblygu data wedi'i deilwra i anghenion gwasanaethau brys.

# Gwerthfawrogi ein Pobl

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n fwy Cyfartal

Cymru iachach

Cymru lewyrchus

Cymru gyda diwylliant bywiog ac Iaith Gymraeg ffyniannus

## Beth yw ystyr hyn?

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein pobl fel yr ased pwysicaf ar gyfer cyflawni ein hamcanion a darparu gwasanaeth rhagorol i'n cymunedau. I lwyddo, mae angen y bobl gywir gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir. Dylai ein gweithlu hefyd gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, bod yn amrywiol, a dylai pawb gael mynediad at gyfleoedd datblygu i sicrhau bod ganddynt yrfaoedd gwerth chweil.

**Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth.**

**Sut byddwn yn ymateb i'ch argyfwng:**

- Denu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a'n hapus yn y gwaith
- Cyflawni argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y gwasanaeth (Newydd 2022-2023)

**Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:**

**Llunio a chynnal adolygiad o drefniadau Ar Alwad a Chyflwyno dysgu cyn y cwrs ar gyfer recriwtiaid Ar Alwad erbyn diwedd 2022**

Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau gan arwain at symleiddio'r broses recriwtio Ar Alwad, gan ddod ag ymgeiswyr llwyddiannus i'r cwrs hyfforddiant cychwynnol ynghynt. Mae llyfryn Datblygu Ar Alwad newydd yn darparu cynllun pedair wythnos cyn y cwrs cychwynnol. Mae hyn wedi helpu i wella cyfraddau cadw wrth i recriwtiaid baratoi'n well.

**Datblygu a lansio ein Llwybrau Dysgu newydd i wella datblygiad staff ymhellach**

Lansiwyd y 'Llwybrau Datblygu' gennym yn gynnar ym mis Ebrill 2023. Mae llwybrau ar gyfer pawb, ar draws pob rôl, gradd a dyhead. Maent ar gyfer datblygu parhaus a seiliwyd ar Adolygiad Personol ystyrlon a chadarn, nid ar gyfer dyrchafiad yn unig.

**Lansio cymorth dysgu ychwanegol ar gyfer niwroamrywiaeth a myfyrio personol**

Yn 2022 lansiodd y Tîm Dysgu a Datblygu'r fenter Ymwybyddiaeth Niwroamrywiaeth. Mae'r tîm wedi creu Tudalen Fewnrwyd Niwroamrywiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol. Fe wnaethant hefyd lansio proses hunan-atgyfeirio ar gyfer unigolion sy'n teimlo eu bod yn cael trafferthion sy'n gysylltiedig â niwroamrywiaeth. Gall hwn helpu nodi addasiadau rhesymol i gynorthwyo â'r amgylchedd gwaith trwy'r proffiliwr Do-It. Gall y rhain gynnwys canllawiau ar hygyrchedd TGCh, cymorth gan iechyd galwedigaethol neu ddefnyddio ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

**Datblygu pecyn hyfforddi i reolwyr llinell ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Mae porthol yr e-Hyb yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer rheolwyr llinell ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Gall Rheolwyr llinell gyrchu hyfforddiant yn ôl eu hargaeledd i wneud hyn ac mae modd iddynt ail-gyrchu os oes angen iddynt adnewyddu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

**Canolbwyntio ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar gyfer yr holl Staff Ar Alwad a Chorfforaethol, yn ogystal â chynyddu nifer yr hyrwyddwyr MIND/Iechyd Meddwl yn y gwasanaeth**

Yn ddiweddar, mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi prynu pecyn e-ddysgu 'Skills Booster.' Mae'r pecyn yn cynnwys wyth modiwl ar bynciau iechyd a lles. Mae'r rhain ar ffurf fideos, cyrsiau a micro-gyrsiau. Yn ogystal â hyn, mae ein Grŵp Cyflawni 'Eich Iechyd' yn parhau i hybu iechyd a lles drwy godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael drwy ein rhaglen cymorth i weithwyr, ac ymwybyddiaeth o'r menopos. Rydym yn parhau i archwilio ehangu ein rhwydwaith o Hyrwyddwyr Meddwl/Iechyd Meddwl.

**Ehangu datblygiad ardaloedd llesiant a gerddi cymunedol yn ein gorsafoedd ac adeiladau eraill**

Rydym wedi cynyddu mannau gwyrdd ar rai o'n safleoedd yn sgil cyflwyno coed a phlannu ychwanegol. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith yng Ngorsaf Dân ac Achub Cwm Ogwr lle, gyda chymorth yr awdurdod lleol, mae'r ardal llesiant a ddefnyddir gan staff wedi'i hymestyn ac mae coed wedi cael eu plannu. Bydd hyn yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer ein cysylltiadau â'r gymuned leol drwy gefnogi gweithgareddau awyr agored megis ysgolion y goedwig.

**Dod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig**

Fe gyfawnwyd yr achrediad hwn yng Ngorffennaf 2023. Mae achrediad cyflog byw yn dangos bod pawb sy'n gweithio i'r Gwasanaeth yn derbyn isafswm cyflog fesul awr, sef £10.90 ar hyn o bryd, sy'n uwch nag isafswm y llywodraeth ar gyfer rhai dros 23 oed sy'n £10.42 yr awr. Yn ogystal â bod y 'peth iawn i'w wneud' mae yma hefyd fanteision busnes amlwg sy'n cynnwys cynhyrchiant ac ymgysylltu uwch.

**Parhau i fod yn rhan o 'Gymuned Ymarfer' a gynhelir gan Academi Wales i rannu syniadau ac arfer gorau ar weithredu diwylliant dwyieithog yn y gweithle**

Rydym wedi parhau i fod yn aelod o 'Gymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan', a elwir hefyd yn 'Gymuned Ymarfer.' Mae hyn yn cefnogi ein hymrwymiad i nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o 'ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a'n rhwymedigaethau statudol o dan Safonau'r Gymraeg.

**Gweithredu'r portffolio datblygu newydd a'r Sicrwydd Ansawdd Mewnol (SAM) yn ein hadran Diogelwch Tân i Fusnesau (DTF) fydd yn mapio'r llwybr ar gyfer ymgeiswyr newydd o'r cyfnod anwytho hyd at gymhwystra**

Crëwyd fersiwn papur o'r portffolio datblygu DTF ac ar hyn o bryd mae mewn defnydd gan ymgeiswyr newydd ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu fersiwn ar-lein. Mae pob dogfen gyfarwyddyd a dogfen siart llif wedi'u creu. Mae hyfforddiant ar gyfer Sicrwydd Ansawdd Mewnol (SAM) wedi'i gwblhau i ganiatáu gweithredu'r broses SAM sydd hefyd bellach ar waith. Crëwyd dogfennaeth ar gyfer cofnodi cynhaliaeth sgiliau fel swyddog DTF cymwys. Yn gyfansymiol, bellach mae gennym saith swyddog SAM cymwys gyda phedwar o'r rhain hefyd yn gwbl gymwys y neu rôl DTF.

Mae ein Cynllun Pobl ar gael YMA.

# Parhau i weithio'n effeithiol

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru o ddiwylliant bywiog ac Iaith ffyniannus

Cymru iachach

## Beth yw ystyr hyn?

Ein nod yw eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth. Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu ffyrdd newydd a gwell o weithio, gan fonitro ein gweithgareddau drwy broses drylwyr o archwiliadau mewnol a meincnodi yn erbyn gwasanaethau tân ac achub eraill.

**Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol.**

### Sut byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol:

- Bod yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio

### Beth oeddem yn bwriadu gwneud yn 2022-2023 a beth rydym wedi'i chyflawni hyd yn hyn:

**Cynnal archwiliad mewnol tua 70 diwrnod o hyd ar ddeuddeg maes pwnc gwahanol, e.e. AD, Cyllid a Diogelu Data, i ddarparu asesiad o sicrwydd a chydymffurfiaeth**

Mae saith deg diwrnod o archwilio wedi'u cwblhau erbyn hyn fel rhan o'n rhaglen archwilio fewnol. Cafodd ein contract archwilio mewnol ei ail-dendro a'i ddyfarnu am dair blynedd. Yn 2022-2023, cynhaliwyd 12 archwiliad – am fanylion pellach gweler tudalen 27. Mae argymhellion yr archwiliadau hyn wedi llywio ein cynlluniau ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cyflawni'r newid disgwyliedig.

**Gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cyd-reoli Tân (CRT) sy'n mynd i'r afael â swyddi sylweddol, amodau gwaith, strwythur, trosglwyddo'n ôl a materion amgylcheddol**

Cynigiodd Adolygiad CRT bum argymhelliad i'w gweithredu. Yng ngoleuni'r argymhellion hyn, rydym wedi penodi Pennaeth CRT newydd ac mae cyfleusterau lles ar y safle wedi gwella. Mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â gweddill yr argymhellion.

**Datblygu pecyn Taith Covid-19 i gefnogi dysgu yn y dyfodol a thystiolaeth ymchwiliad cyhoeddus**

Rydym wedi adolygu ein profiad o weithio drwy bandemig Covid-19 ac o ganlyniad i'r profiad a gafwyd, rydym wedi cael gwybodaeth a fydd yn sicrhau bod ffyrdd gwell o weithio yn cael eu cynnal. Casglwyd tystiolaeth ddogfennol am ymateb y Gwasanaeth i'r pandemig er gwybodaeth yn y dyfodol.

**Ymchwilio i uwchraddio ein system cyllid a chaffael**

Ystyrir caffael system gyllid yn y dyfodol o ran gweithdrefnau ac amserlenni. Yn y cyfamser, mae ein system gyfredol yn cael ei huwchraddio a bydd yn darparu gwerth am arian a buddion system.

**Ail-drefnu cyrsiau i gynyddu presenoldeb ymgeiswyr ac arbedion effeithlonrwydd trwy symud hyfforddiant theori i hyfforddiant ar-lein i hyfforddiant dan arweiniad hyfforddwr**

Mae cyrsiau achub dŵr a chyrsiau offer anadlu (OA) wedi'u hailgynllunio i ganiatáu hyfforddiant ar-lein dan arweiniad hyfforddwr gyda chyrsiau ychwanegol i ddilyn.

**Uwchraddio ein cyfleuster ChAT (Chwilio ac Achub Trefol)**

Cwblhawyd y cyfleuster ChAT newydd yng Ngorsaf Dân ac Achub yr Eglwys Newydd ym mis Mawrth 2023, gan ddarparu canolfan ar gyfer ChAT Cymru. Cafodd hwn ei ddatblygu gyda chymorth a chyllid gan Lywodraeth Cymru a bydd yn helpu sicrhau'r lefelau uchaf o hyfforddiant a galluoedd gweithredol personél ledled Cymru.

**Hyrwyddo ein cynllun Arloesi a Gwella, gan annog syniadau ac awgrymiadau gan unrhyw aelod o staff**

Mae diwygiadau i'r cynllun Arloesi a Gwella ar y gweill a phan fydd wedi'i gwblhau caiff hyn ei hyrwyddo i staff, a fydd wedyn yn gallu cyflwyno syniadau i'r pwyllgor. Dangosir bod y ffordd hon o ymgorffori cyfranogiad staff mewn newid yn cael effeithiau cadarnhaol ar les a boddhad gweithwyr.

**Cynnal asesiadau sŵn a dirgrynu ar draws y Gwasanaeth**

Yn dilyn prosiect sy'n cynnwys ein timau Iechyd, Diogelwch a Llesiant ac Iechyd Galwedigaethol, mae adroddiad yn cael ei ffurfioli ar risg rhag dirgryniadau. Oedwyd y prosiect asesu sŵn ond bellach ma e ar waith gyda'r adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi.

# Sut wnaethom Ddatblygu Ein Cynllun ar gyfer 2024-2025

Mae ein proses cynllunio strategol yn gylchred gydol y flwyddyn a ddisgrifir yn ein **Fframwaith Cynllunio Strategol**. Yn ystod y chwe mis cyntaf rydym yn monitro ein cynlluniau, gydag adroddiadau'n cael eu craffu o fewn adrannau, gan ein Uwch Dîm Rheoli (UDRh) a'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA). Rydym yn adolygu effaith ein camau gweithredu yn y flwyddyn flaenorol ac yn ymgysylltu â'n staff a rhanddeiliaid i gasglu'r ystod eang o wybodaeth sydd ei hangen i greu a chyhoeddi ein Cynllun Gwella Blynyddol.


## Ymgynghoriad Cychwynnol

Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol tair wythnos o hyd yn ystod mis Mehefin 2023 pan wnaethom ofyn i'n staff, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i'n helpu i lunio ein cynlluniau. Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu ystod eang o safbwyntiau yng ngham ffurfiannol y cynllunio, gofynnwyd a oedd gennym y blaenoriaethau cywir ac a oeddem yn gwneud yr hyn yr oeddent yn meddwl y dylem fod yn ei wneud. Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r adborth hwn i lywio eu cynigion ar gyfer ein nodau strategol. Mae'r UDRh hefyd yn ystyried yr adborth mewn sesiwn gweithdy sy'n canolbwyntio ar edrych i'r dyfodol.

Hyrwyddwyd yr arolwg, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg, drwy law e-bost i'n cofrestr rhanddeiliaid a'r holl staff drwy law e-bost, cylchlythyrau mewnol, yr ap staff ac ar fewnrwyd y Gwasanaeth.

Cawsom 88 o ymatebion, gyda'r mwyafrif ohonynt gan staff neu eraill sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth a chafwyd cytundeb cyffredinol bod pob un o'n wyth Thema Strategol yn bwysig o hyd.

### Graddfa Pwysigrwydd Thema Strategol




| | Eich cadw'n ddiogel | Ymateb i'ch Argyfwng | Gweithio gyda'n partneriaid | Ymgysylltu a chyfathrebu | Diogelu ein hamgylchfydedd | Defnyddio technoleg yn dda | Gwerthfawrogi ein pobl | Parhau i weithio'n effeithion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sgôr cyf. 2023 | **4.5** | **4.7** | **3.8** | **3.9** | **3.9** | **4.0** | **4.3** | **4.3** |
| Sgôr cyf. 2022 | 4.7 | 4.9 | 4.0 | 4.1 | 4.2 | 4.6 | 4.2 | 4.3 |

1 2 3 4 5

*Pwysigrwydd Thema Strategol i'r Ymatebwyr (ar raddfa o 1-5, gyda 5 yn bwysig iawn ac 1 ddim yn bwysig o gwbl) – yn dangos nifer yr ymatebion a dderbyniwyd ar draws yr ystod sgorio.*

## Cwynion a Chanmoliaeth

Gwnaethom ystyried cwynion i nodi unrhyw faterion a oedd yn codi dro ar ôl tro. Derbyniwyd cyfanswm o 61 o gwynion yn 2022-2023, sef cynnydd o 61% ar y 38 a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd mewn dwy thema – Ymddygiad (o 18 i 41) a Chyfryngau Cymdeithasol (pedair cwyn lle chafwyd dim un yn y flwyddyn flaenorol). Nid oedd unrhyw faterion a godwyd yn gofyn am newidiadau i'n gweithdrefnau, ond, lle bu'n briodol, darparwyd cyngor a/neu hyfforddiant i'r unigolion dan sylw.

Cawsom 82 o negeseuon a llythyrau cadarnhaol yn dangos gwerthfawrogiad yn ystod 2022-2023. Rhennir yr adborth hwn ar draws y Gwasanaeth.

*"I bawb a fynychodd y tân yn y tŷ hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi i gyd (gen i a fy anwyliaid) am achub fy mywyd. Heb eich cymorth chi fyddwn i byth yma nawr. Rydych chi wedi rhoi ail gynnig ar fywyd i fi ac rwy'n gwneud y gorau ohoni. 'Rwy'n gwella'n dda, o ystyried mae cael a chael oedd hi. Rydych chi'n arwyr gwirioneddol, a hoffem ddweud unwaith eto, diolch yn fawr." (Chwef 2023)*

*"Roeddwn i eisiau dweud DIOLCH enfawr i'r diffoddwyr tân am helpu fy achub i o goedwig. Dw i ddim yn gwybod beth fyddwn ni wedi'i wneud heb eich cymorth chi! Mae'n debyg bod fy nghoes wedi torri mewn tri man ac roedd fy ffêr wedi'i ddadleoli. Cefais lawdriniaeth y noson honno ac erbyn hyn mae gennyf blât metel a deg bollt yn fy nghoes! Fyddwn i byth wedi dod o 'na heb eich help chi." (Chwef 2023)*

*"Ysgrifennaf mewn perthynas â'r diffoddwyr tân a fynychodd fy nghartref. Roeddwn i jyst eisiau dweud pa mor broffesiynol oedden nhw a chymaint o barch a ddangoson nhw i'n cartref ni. Roedden nhw'n ddynion ifanc hyfryd a chyfeillgar iawn, maen nhw'n glod i chi fel gwasanaeth ac roeddwn i jyst eisiau rhannu ychydig bach o adborth cadarnhaol gyda chi. Roedd cyn lleied o amser a gymerodd i chi gysylltu â ni a gwneud y gwaith yn rhyfeddol, gwasanaeth bendigedig." (Rhag 2022)*

## Adnabod blaenoriaethau

Yn ogystal ag ystyried gwybodaeth o'r ymgynghoriad cychwynnol, edrychon ni ar alw drwy ddadansoddi tueddiadau digwyddiadau law yn llaw â'n perfformiad, cyd-destun ehangach ein gweithgareddau drwy sganio'r gorwel ac adolygu cynlluniau eraill, yn enwedig rhai gan ein partneriaid BGC, yn ogystal ag adborth archwilio i nodi meysydd i'w gwella.

Cynhaliwyd gweithdy UDRh i adolygu adborth ymgynghori, gan ddatblygu dadansoddiad SWOT a PESTLE ac archwilio blaenoriaethau, risgiau a ffyrdd o weithio yn y dyfodol, i ddatblygu ein hamcanion arfaethedig ar gyfer 2024-2025. Cyflwynwyd ymatebion hefyd i'r Awdurdod Tân ac Achub ac ymgorfforwyd yr adborth yn ein cynlluniau.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr eraill i fyfyrio ar adborth a nodi blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025, gan symud ymlaen o gynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn gyfredol.

Gwahoddwyd cydweithwyr mewn rolau gweithredol a lleihau risg i roi sylwadau ar y ddogfen ddrafft cyn adolygiad terfynol a chymeradwyaeth gan yr UDRh a'r ATA.

Mae ein hamlinelliad lefel uchel o'n cynlluniau ar gyfer 2024-2025 i'w weld ar dudalennau 54 i 61 gyda newidiadau arfaethedig wedi'u hamlygu.

Mae cyhoeddi'r Cynllun Gwella Blynyddol hwn yn nodi dechrau ein hymgynghoriad 12 wythnos i lywio ein cynlluniau terfynol ar gyfer y flwyddyn i ddod a thu hwnt. Rydym yn croesawu pob awgrym ac adborth.

# Ymgynghoriad - Themâu ac Ymatebion

| Themâu allweddol | Materion a godwyd |
|---|---|
| Gwerthfawrogi staff | Roedd y pryderon yn pwysleisio pwysigrwydd gofalu am staff, yn enwedig codi effaith dargedwedd ar lwythi gwaith a llesiant, yn ogystal â chynnig ailstrwythuro rheolaeth. |
| Canolbwyntio ar berfformiad | Roedd yr ymatebion yn awgrymu y dylai'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar gyfrifoldebau craidd ac yn cwestiynu perfformiad yn y meysydd hyn, gan awgrymu y dylid dangos tystiolaeth o hynny. Awgrymwyd y byddai rhai gweithgareddau yn cael eu gwasanaethu'n well gan asiantaethau eraill er mwyn caniatáu i'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar ymarferoldeb gweithredol. |
| Recriwtio a Dargedwedd | Mynegwyd pryderon ynghylch dargedwedd personél Ar Alwad, ac awgrymwyd y gellid gwella'r llwybrau i gyflogaeth Amser Llawn yn ogystal â recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân sy'n fenywod a mwy o blith lleiafrifoedd ethnig. Awgrymwyd y dylid cael cyfleoedd gweithio mwy hyblyg ar gyfer Staff Corfforaethol. |
| Effaith amgylcheddol | Cydnabuwyd y dylai cynllunio yn y dyfodol ystyried effaith amgylcheddol y Gwasanaeth a chodwyd materion penodol ynglŷn â cherbydau ar orsafoedd a symudiadau peiriannau. |
| Dyrchafiadau a llwybrau datblygu | Cafwyd pryderon y dylid adolygu a gwella cyfleoedd ar gyfer dyrchafiadau, cynllunio ar gyfer olyniaeth y gweithlu a chyfleoedd datblygu. |
| Ymgysylltu â'n cymunedau | Awgrymwyd y dylid cynyddu'r ymgysylltiad â chymunedau lleol i ehangu cyrhaeddiad y Gwasanaeth y tu hwnt i gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, cynigiwyd hefyd y dylid cael llai o weithgareddau hyrwyddo megis diwrnodau agored a llai o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. |
| Gwneud defnydd mwy effeithlon o dechnoleg | Roedd yr ymatebion yn sôn am effaith technoleg aneffeithlon ar waith a'r potensial i ddefnyddio technoleg yn well i gynyddu effeithlonrwydd. |

## Ein hymateb

Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod ein staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rydym yn cydnabod mai ein staff yw ein hased a'n cryfder mwyaf. Cynhaliwyd nifer o fentrau eleni oedd yn edrych ar brofiad ein pobl yn y gweithle ac ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn, a chanlyniadau'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol ill dau, datblygir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phryderon a gwneud y newidiadau sydd eu hangen arnom. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i roi mentrau lles ar waith drwy'r "Grŵp Cyflawni Eich Iechyd" i fynd i'r afael â phryderon lles ar gyfer pob grŵp staff.

Mae dargedwedd staff yn bwysig i ni. Rydym wedi gwneud newidiadau i wella'r llwybr hyfforddi ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad o'r recriwtio cychwynnol i ddod yn gymwys gyda chynyddrannau cyflog fesul cam yn ystod y rhaglen ddatblygu. I gefnogi dargedwedd staff, mae datblygu staff yn faes ffocws i bob rôl a bydd yn parhau i fod felly. Mae'r rhaglenni Llwybrau a'r dosbarthiadau meistr ynghyd â'r cyfleuster e-Hyb ar ein system Core HR yn darparu cyfleoedd datblygu a dysgu i'r holl staff. Mae "Cynnal Rhagoriaeth" wedi cael ei lansio ynghyd ag "Arwain Fy Hun" ac "Arwain Eraill". Bwriedir cyflwyno llwybrau datblygu i arweinwyr canol ddiwedd 2023 ac arweinwyr strategol yn ystod 2024. Mae'r rhaglen hyfforddiant gweithredol yn cael ei diweddaru a'i gwella'n barhaus i sicrhau bod ein diffoddwyr tân yn cael eu hyfforddi i'r safonau uchaf.

Wrth edrych tuag at ein heffaith ar yr amgylchedd, mae ein Cynllun Lleihau Carbon yn nodi ein huchelgeisiau a'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae gwaith dylunio ar ddyluniad Sero Carbon Net Gorsaf Dân ac Achub New Inn yn dod ymlaen yn dda. Rydym yn gweithio tuag at roi polisi amnewid cerbydau ysgafn ar waith i gyrraedd targed 2030 Llywodraeth Cymru ar gyfer sero allyriadau ac rydym yn gweithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ganfod pa mor ymarferol yw defnyddio bioddiesel. Rydym yn annog ein staff i nodi meysydd i'w gwella ac yn cydnabod bydd ganddynt syniadau gwych am sut allwn fod yn fwy cynaliadwy yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae ein cymunedau wrth wraidd popeth a wnawn ac i sicrhau ein bod yn ail-adeiladu'r holl gysylltiadau a gollwyd gennym dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cychwyn cyfres o ddigwyddiadau gorsaf a chymunedol lle rydym yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu'r galw i gynyddu ymgysylltu uniongyrchol a byddwn yn ymdrechu i'w droi'n gamau gweithredu yn y blynyddoedd i ddod.

Mynegwyd rhwystredigaeth ynghylch aneffeithlonrwydd o ran y defnydd o dechnoleg. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o godi lefel sgiliau aelodau ein tîm er mwyn harneisio galluoedd yr offer a'r systemau sydd gennym ar hyn o bryd yn ogystal â gwneud gwelliannau pellach o ran yr offer sydd ar gael a'r setiau sgiliau i'w defnyddio i'r dyfodol. Rydym yn cynnal adnewyddiad mawr o ddyfeisiau cyfrifiadura i ddefnyddwyr terfynol. Bydd yr adnewyddiad hwn yn diweddaru ac yn gwella'r dyfeisiau a ddefnyddir gan weithwyr hyblyg yn ogystal â chael gwared ar systemau hŷn sy'n dal i gael eu defnyddio. Rydym yn parhau i ddatblygu ein system AD ar-lein i sicrhau integreiddio llawn ar draws timau AD a gwella gweithdrefnau hunanwasanaeth ill dau.

Awgrymwyd rhai meysydd lle dylai'r Gwasanaeth roi llai o ffocws arnynt.

Cafwyd barn y dylai'r Gwasanaeth roi llai o sylw i ymddangos yn dda ac yn hytrach y dylai ganolbwyntio mwy ar wneud gwaith da a gofalu am ei staff. Mae hyn yn cysylltu'n glir â'r farn a fynegwyd o'r blaen sef bod angen i'r Gwasanaeth ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Yn wahanol i'r farn y dylem ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd, roedd barn i'r gwrthwyneb ar gyfer digwyddiadau megis diwrnodau agored a oedd yn cael eu hystyried yn wastraff arian cyhoeddus. Er bod y digwyddiadau hyn yn costio arian i'w cynnal, maent yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â'r cyhoedd i rannu negeseuon diogelwch, cynnwys y cyhoedd yn ein penderfyniadau ac arddangos ein cyfleoedd cyflogaeth. Rydym yn cydnabod y byddai'n fuddiol cael gwerthusiad cadarnach o'r digwyddiadau hyn er mwyn mesur eu gwir werth.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar ei ddyletswyddau craidd a'r pethau y mae'n dda am eu gwneud, gan adael gweithgareddau eraill a fyddai'n cael eu gwasanaethu'n well gan wasanaethau brys eraill neu asiantaethau partner. Rydym yn gweithio mewn amgylchedd cymhleth ac ni allwn bob amser weithredu ar ein pennau ein hunain. Mewn gwirionedd mae'n ofynnol i ni weithio mewn partneriaeth mewn llawer o feysydd yn unol â daliad canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ni fyddai rhoi'r gorau i'r gwaith hwn yn rhoi'r canlyniadau gorau i'n cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellir gwella'r cyfathrebu ynghylch pam a sut rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a'r manteision cysylltiedig.

Roedd y defnydd o'r cyfryngau yn destun craffu a'r duedd gyffredinol oedd y dylai'r Gwasanaeth ganolbwyntio llai ar weithgareddau cyfryngau, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol. Cafwyd barn y gallai gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol annog ymddygiadau niweidiol yn ein cymunedau. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod risg wrth ddefnyddio'r cyfryngau - fodd bynnag mae angen ei gydbwyso â manteision ymgysylltu â'n cymunedau, rhannu negeseuon diogelwch a dathlu llwyddiannau ac ystyried hynny mewn gweithgareddau yn y dyfodol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaethom ofyn i bobl pe bai modd iddynt newid un peth beth fyddai hwnnw. Mewn ymateb i hwn, cafwyd nifer o awgrymiadau diddorol fydd yn cael eu bwydo i'r cynllun gweithredu a'r mentrau eraill sy'n edrych ar brofiadau ein pobl yn y gweithle. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys ystyried strwythur, recriwtio a chadw, gweithio hybrid, dyrchafiadau a llwybrau yn ogystal ag argaeledd ac ymateb.

# Yr hyn rydym yn bwriadu gwneud yn 2024-2025

Ein gweledigaeth o hyd yw "Gwneud De Cymru'n ddiogelach drwy leihau risg. Mae'r nod hwn, a sefydlwyd yn ein Cynllun Strategol 2020-2030, yn sylfaenol i'n gweithgareddau ac yn llunio ein cynllunio sydd wedi'i strwythuro o gwmpas wyth Thema Strategol, a amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon.

Yn ogystal â darparu ymateb effeithiol i'n cymunedau pan fydd ein hangen arnynt, mae'r model hwn yn sicrhau bod ein cynlluniau'n cyd-fynd ag egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bydd gofynion cyfredol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy.**

Mae'r themâu a'r amcanion cysylltiedig wedi datblygu mewn ymgynghoriad â'n staff, cymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill. Ar y tudalennau canlynol, rydym yn amlinellu ein gwaith wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer 2024-2025 ac yn amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu a gwella ymhellach.

Mae'r cynlluniau hyn yn agored i ymgynghoriad am 12 wythnos o ddyddiad cyhoeddi'r Cynllun Gwella hwn. Gallwch ddod o hyd i fanylion am sut i Leisio eich Barn ar ddiwedd y ddogfen hon. A wnewch chi gymryd ychydig o funudau i leisio eich barn wrthym.

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn – gan gynnwys gwerthfawrogi a datblygu ein pobl i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gymunedau De Cymru. Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn yn ein Cynllun Strategol a chynlluniau allweddol eraill, sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy'r dolenni isod.




Ein Cynllun Strategol 2020-2030

Mae'r ddogfen hon yn datgan ein strategaeth hirdymor i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol a chynaliadwy. Mae'n cyflwyno'r wyth Thema Strategol a gwmpasir o fewn y diweddariad hwn.




Ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023

Mae'r cynllun hwn yn datgan sut byddwn yn parhau i wella'r ffyrdd y byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau'r niwed lleiaf i'n hamgylchedd.




Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026

Wrth nodi ein hamcanion cydraddoldeb am y tair blynedd nesaf, mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddwn yn gweithio tuag at ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth y gwnawn.

Hyfforddwyd ein Hymarferwyr Diogelwch yn y Cartref i ddarparu cyngor diogelwch yn y cartref i aelwydydd a adnabuwyd fel eu bod o risg uchel. Mae eu rhwydwaith o gysylltiadau gydag asiantaethau eraill yn sicrhau'r gefnogaeth gywir a ganolwyd ganddo ar anghenion unigol.



# Eich Cadw'n Ddiogel

## Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn darparu ataliad rhag, ac amddiffyniad rhag, argyfyngau i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bu ein gweithgareddau ataliol yn hynod ddylanwadol wrth ostwng argyfyngau yn ystod y blynyddoedd diweddaraf - tuedd rydym yn awyddus i'w gynnal a gwella. Un o'r sbardunau allweddol ar gyfer ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth rydym yn caffael gan, ac yn rhannu â sefydliadau eraill, sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol ar sail tystiolaeth ystadegol.

## Ein Hamcanion:

- Gostwng effaith larymau ffug ar ein hadnoddau
- Lleihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Gostwng nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf)
- Lleihau nifer y tanau bwriadol
- Gwella diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Addysgu a chynghori ar ofynion y Gorchymyn Diogelwch Tân, i sicrhau bydd y rhai hynny sy'n rheoli gweithleoedd neu rannau cyffredin adeiladau sy'n cynnwys dau neu fwy o eiddo preswyl yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Byddwn hefyd yn eu cynghori a'u cefnogi ar y ddeddfwriaeth newydd a'r cyfarwyddyd
- Sicrhau rydym yn cymryd agwedd gyfannol sy'n seiliedig ar risg wrth ddanfon adnoddau atal a diogelu
- Gwell ein defnydd o ddata a deallusrwydd i dargedu'r rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl rhag tân yn effeithiol
- Dyrchafu ein hymdrechion i gyfathrebu negeseuon diogelwch dŵr i'r rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl
- Addysgu perchnogion adeiladau a rheolwyr ynghylch effaith larymau ffug ar y Gwasanaeth a'u busnesau
- Paratoi ar gyfer effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau (er enghraifft, cynnydd mewn tanau gwyllt a llifogydd) a gweithio â phartneriaid i leihau'r effaith

# Ymateb i'ch Argyfwng

## Mae hyn yn golygu...

Byddwn bob amser yn sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau pan fydd angen. Golyga hyn bod angen pobl sydd wedi'u hyfforddi i'r safon uchaf arnom a'r offer diweddaraf sydd ar gael i sicrhau na fydd diogelwch ein cymunedau byth yn cael ei beryglu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein diffoddwyr tân a'n Staff Cyd-reoli Tân i sicrhau y cânt ymateb i'r amrediad eang o ddigwyddiadau rydym yn wynebu nawr ac i'r dyfodol.

## Ein Hamcanion:

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- Gwneud popeth y gallwn i sicrhau bydd ein diffoddwyr tân System Ddyletswydd Ar Alwad ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, ein staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol yn ein cymunedau

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Adolygu ein rhaglen hyfforddi gweithredol mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Thematig Llywodraeth Cymru
- Sefydlu newidiadau i gyrsiau hyfforddi gyrwyr mewn ymateb i Adran 19 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 2006 a monitro unrhyw effaith cyrsiau estynedig
- Datblygu gweithio cydweithredol drwy law grŵp Rheolwyr Hyfforddi Cymru gyfan, gan ganolbwyntio ar gyflenwadau ac integreiddio gyda gweithgor sy'n seiliedig ar risg
- Gweithredu canlyniadau ein hadolygiad strategol Ar Alwad mewnol
- Diweddariad/uwchraddiad systemau ar gyfer Cyd-reoli Tân

# Gweithio â Phartneriaid

## Mae hyn yn golygu...

Mae gennym hanes sefydledig a balch o weithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwelliannau mesuradwy, arbedion effeithlonrwydd ac i gwrdd â gofynion y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau strategol a chynorthwyo wrth wella llesiant cymunedol. Rydym yn cydnabod buddion gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflenwi gwasanaethau gwerth gorau i'r cymunedau rydym yn cyd-wasanaethu a bod rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth galon dyfodol ein Gwasanaeth.

## Ein Hamcanion:

- Gweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Gweithio â'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid i adnabod y rhai hynny sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau
- Gwella ein trefniadau rhannu data i gefnogi gweithio mewn partneriaeth
- Datblygu ein trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bydd y rhai hynny sy'n cyfranogi yn gallu gwireddu'r budd mwyaf o'u hymrwymiad
- Eithafu cyfleoedd ar gyfer cyd-leoli a hyblygrwydd, gan addasu'r portffolio eiddo yn unol â risgiau cymunedol a gofynion gweithredol newydd
- Ymgysylltu â phartneriaid ac asiantaethau eraill ar sail agwedd gydweithredol i leihau ein heffaith amgylcheddol

# Cynnwys a Chyfathrebu

## Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu a cynnwys ein staff, ein cyfranddalwyr, ein cymunedau a'n partneriaid wrth feithrin agwedd gadarnhaol at gyfathrebu. Mae cyfathrebu'n flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau fod ein staff, ein cyfranddalwyr, ein cymunedau a'n partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef, yr heriau rydym yn wynebu a'u bod yn gallu bod ynghlwm wrth lunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Credwn y gallwn ddarparu ein negeseuon allweddol yn effeithiol wrth sicrhau ffocws parhaol ar addysgu, ymgysylltu a chyfathrebu. Gall gweithio cydlynus fel rhan o gymuned sydd â chysylltiadau da ddarparu gwelliant ehangach nag wrth weithio'n unig, a thrwy hynny'n sicrhau gwell cyfleoedd i gadw preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr De Cymru'n ddiogelach.

## Ein Hamcanion:

- Cynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael llais yn yr hyn rydyn ni'n gwneud
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Cyfathrebu gwell gwybodaeth ar bwy ydyn ni a beth ydyn ni'n ei wneud
- Gweithio â staff, cyfranddalwyr, cymunedau a phartneriaid i weithredu argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol, a chyd-greu gwelliannau i'r Gwasanaeth
- Gofyn i'n staff sut allwn wella ein cyfathrebu
- Dechrau gwaith i ddatblygu Fforwm Dinasyddion, yn caniatáu i leisiau amrywiol saernïo'r gwasanaethau rydym yn darparu
- Mapio ein gweithgareddau a'n cyfranddalwyr i sicrhau ein bod yn cynnwys grwpiau priodol
- Cydnabod gwaith gorsafoedd wrth gefnogi a chynnwys cymunedau

# Diogelu a Gwella ein Hamgylchedd

## Mae hyn yn golygu...

Rydym yn gwybod bod gan ein gweithgareddau effaith ar yr amgylchedd rhyngwladol a lleol ac rydym yn ymroddedig i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Rydym wedi datblygu Cynllun Lleihau Carbon a Chynllun Bioamrywiaeth sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig ystod o gamau sy'n canolbwyntio ar leihau ein heffaith amgylcheddol ac yn diogelu ac adfer ein systemau biolegol. Rydym yn ymroi i anwesu mathau o ynni adnewyddol i gefnogi cynaliadwyedd ac amcanion amgylcheddol DLl CD.

## Ein Hamcanion:

- Gweithredu a chorffori polisïau a gweithdrefnau cynaliadwy
- Archwilio cyfleoedd i ddad-garboneiddio ein fflyd
- Gostwng ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd
- Gostwng swm y gwastraff a gynhyrchwyd

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Gwella ein rheoli gwastraff wrth ddefnyddio data a gasglwyd ar ffrydiau gwastraff
- Parhau i ddatblygu ein hymateb i danau gwyllt
- Dechrau datblygu ein gorsaf carbon niwtral cyntaf
- Parhau'r uwchraddiadau i'n cyfleuster hyfforddiant tân gwirioneddol i leihau effaith amgylcheddol
- Mesur effaith ein gweithredoedd ac adrodd ein cynnydd.
- Gweithio â phartneriaid i ddiogelu ein hamgylchedd
- Adnabod ffyrdd o ddyrchafu a datblygu ein hardaloedd lles a'n mannau gwyrdd

# Defnyddio Technoleg yn Dda

## Mae hyn yn golygu...

Defnyddio technoleg yn well i wella ein prosesau a'n systemau i'w gwneud yn addas at y dyfodol, gan ein bod yn cydnabod fod hyn yn chwarae rôl hanfodol yn sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. O'n technegau a'n cyfarpar diffodd tân gweithredol i'n systemau cefnogi swyddfa gefn, bwriadwn eithafu dyrchafiadau technolegol i gefnogi a gwella'r ffyrdd rydym yn darparu gwasanaethau. Bydd datblygiad technolegol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant ehangach ein staff a'r cymunedau rydym yn gwasanaethu, yn sicrhau bydd adnoddau gweithredol yn y man gorau i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau.

## Ein Hamcanion:

- Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar hyd y Gwasanaeth

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Uwchraddio systemau cyfathrebu mewn peiriannau tân i ddarparu cymwysiadau ychwanegol ar gyfer defnydd amser ar y pryd
- Gwneud defnydd mwy effeithlon o TGCh i ymgysylltu â'n gweithlu gweithredol.
- Cynyddu'r defnydd o dechnoleg symudol
- Gwella cydweithredu digidol a chyfleoedd gwaith
- Darparu hydwythedd cynyddol a diogelwch i'n systemau TGCh
- Darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi prosiectau newydd ac sydd ar waith ar gyfer Cyd-reoli Tân

# Gwerthfawrogi ein Pobl

## Mae hyn yn golygu...

Dylai ein gweithlu gynrychioli'r cymunedau rydym yn gwasanaethu, a bod yn amrywiol, yn gydradd ei werth, ac â mynediad i ddatblygiad a chyfleoedd proffesiynol. Bydd ein Cynllun Pobl, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant yn cefnogi ein gwaith ar recriwtio, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cynhwysiant ac iechyd ac yn helpu datblygu'r diwylliant a'r ymddygiadau sydd eu hangen o fewn ein Gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu gwelliannau nid yn unig i staff cyfredol/y dyfodol ond hefyd y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Bydd cynnydd yng nghyfranogaeth ein staff i'n fforwm ar-lein Shout yn ein helpu ni i ddeall materion staff yn well ac yn caniatáu i fwy o staff gyfrannu'n haws yn yr hyn rydym yn gwneud.

## Ein Hamcanion:

- Denu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach ac wedi'u gwerthfawrogi yn y gwaith
- Cyflawni argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Ymateb i ganfyddiadau'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol
- Trawsnewid ein swyddogaethau Gwasanaethau Pobl i ddarparu cymorth gweithredol optimwm a rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn
- Adolygu cyfraddau dargadwedd Ar Alwad
- Datblygu a monitro hyfforddiant i'r staff cyfan i ddarparu datblygiad sgiliau craidd, e.e., TGCh

# Parhau i Weithio'n Effeithiol

## Mae hyn yn golygu...

Rydym yn bwriadu arddangos gwerth am arian ar bob adeg ac yn darparu ein gwasanaethau am gost sydd gyda'r isaf posib a'r safon uchaf posib. Wrth ystyried faint i'w wario, mae'r angen i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau a lleihau risg yng nghymunedau De Cymru'n parhau'n flaenoriaeth i ni. Byddwn yn gweithio ar gynllunio canol a hirdymor, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau yn wyneb yr her ariannol barhaus a phroffiliau risg newidiol ein cymunedau. Byddwn yn cefnogi Aelodau'r Awdurdod Tan ac Achub ac yn darparu iddynt y wybodaeth sydd angen arnynt i gynnal eu rolau arweinyddol a chraffu yn effeithiol.

## Ein Hamcanion:

- Bod yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Darganfod ffyrdd o weithio'n well a chlyfrach

## Bydd ein blaenoriaethau yn 2024-2025 yn cynnwys:

- Archwilio ffyrdd o fonitro a gwerthuso canlyniadau ein gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau atal, i sicrhau eu bod yn parhau i wneud pobl yn ddiogelach
- Sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth gynhyrchu gwybodaeth gyrchadwy, eglur i'r cyhoedd
- Sicrhau'r gwerth orau i'r cyhoedd drwy law gweithdrefnau caffael teg a grymus, cydweithredu, gweithio mewn partneriaeth ac wrth ystyried Strategaeth Ariannol Ganoldymor y Gwasanaeth

# Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswydd i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg a chefnogi'r rhai sy'n dewis cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â Safonau'r Gymraeg 2015, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Awdurdod. Cyhoeddwyd y **Rhybudd Cydymffurfiaeth** hwn ar ein gwefan ac mae'n cyflwyno manylion ynghylch pa wasanaethau gall dinasyddion ddisgwyl derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella safon gyffredinol ein darpariaeth gwasanaeth

## Fersiynau amgen

Rydym yn cyhoeddi fersiwn "darllen chwim" o'r cynllun hwn ac mae'r ddau fersiwn ar gael ar ein gwefan gyda chyfleuster sain "Siaradwch y wefan" sydd hefyd yn cynnwys opsiwn cyfieithu. Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, **cysylltwch â ni**.

## Lleisia dy farn

Rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Mae'r holl adborth yn cael ei adolygu a'i ystyried wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau. I gael diweddariadau rheolaidd a gwahoddiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac arolygon, mae croeso i chi ymuno â'n **Cofrestr Rhanddeiliaid**.

Mae ymgynghoriad ar ein blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2024-2025 ar agor am 12 wythnos o gyhoeddi'r ddogfen hon – cwblhewch yr arolwg yma **Dweud eich dweud.**

Gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau isod.

## Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant, CF72 8LX

## Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk


## E-bostiwch ni

DED@decymru-tan.gov.uk

## Galwch ni

01443 232000

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.



Mae ein rhaglen ymarfer yn cynnwys hyfforddiant aml-asiantaeth mewn lleoliadau byw. Cynhaliwyd digwyddiad diweddar yn Nhwnnel Hafren.

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

@TanDeCymru

@TanDeCymru

@sw_fire_and_rescue

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan y Cyfryngau a Chyfathrebu 2023 | MC000062